



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion

Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1
Hydref 2008

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8019

Ffacs: 029 2089 8021

E-bost: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

Cynnwys

Page

Aelodau'r Pwyllgor

Crynodeb

1.	Rhagymadrodd	1
2.	Y cefndir	3
3.	Yr egwyddorion cyffredinol	4
	Yr angen am ddeddfwriaeth	4
	Amseru	10
4.	Sylwadau penodol ar y darpariaethau	14
	Adran 1 Dyletswyddau mewn perthynas â hybu bwyta'n iach mewn ysgolion	14
	Adran 2 Dyletswydd bellach ar Weinidogion Cymru	18
	Adran 3 Ystyr "bwyta'n iach"	19
	Adrannau 4, 5 a 6 Ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer adroddiadau ac arolygiadau	21
	Adran 7 Gofynion ynglŷn â bwyd a diod a ddarperir ar fangre ysgol etc.	25
	Adran 8 Dŵr yfed mewn ysgolion	28
	Adrannau 9 a 10 Hybu prydau mewn ysgolion a diogelu manylion adnabod disgyblion sy'n cael cinio ysgol am ddim	30
5.	Adroddiadau pwyllgorau eraill	34
	Y Pwyllgor Cyllid	34
	Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth	34

Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion

Aelodau

Kirsty Williams (Cadeirydd)	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Brycheiniog a Sir Faesyfed
Dai Lloyd	Plaid Cymru	Gorllewin De Cymru
Irene James	Llafur	Islwyn
Angela Burns (11 Mehefin 08 -)	Plaid Geidwadol Cymru	Gorllewin Caerfryddin De Sir Benfro
Jeff Cuthbert	Llafur	Caerffili
Alun Cairns (30 Ebrill - 11 Mehefin 08)	Plaid Geidwadol Cymru	Gorllewin De Cymru

Crynodeb

1. Rydyn ni'n croesawu'r gefnogaeth gref sydd yna ar gyfer gwella bwyta'n iach yn gyffredinol ac yn nodi bod y mwyafrif llethol o'r rhai a roddodd dystiolaeth yn cydnabod arwyddocâd yr ysgolion wrth symud yr agenda hwn yn ei flaen.
2. Rydyn ni'n rhannu'r pryder a godwyd mewn tystiolaeth am effeithiau hirdymor deiet wael a maeth gwael ar iechyd. Rydyn ni'n derbyn bod angen rhoi sylw i'r cynnydd yn lefelau gordewdra yng Nghymru ac yn credu y bydd addysgu plant am fanteision bwyta'n iach ynghyd â darparu prydau bwyd maethlon yn yr ysgol yn fan cychwyn effeithiol. Yn ychwanegol, rydyn ni'n derbyn bod deiet a maethiad da yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad plant, eu gallu i ddysgu ac i symud yn eu blaen yn gadarnhaol drwy'r ysgol.
3. Rydyn ni'n cydnabod y gefnogaeth eang i egwyddorion y Mesur arfaethedig, ac yn nodi tystiolaeth y Gweinidog nad yw amcanion cyffredinol y Mesur arfaethedig yn gwrthdaro mewn unrhyw fodd ag amcanion cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad yn *Blas am Oes*. Rydyn ni'n croesawu'r ymrwymiad a amlygwyd gan lawer o'r rhanddeiliaid hyd yn hyn i wella bwyta'n iach yn yr ysgolion. Rydyn ni'n cefnogi ac yn ategu'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud drwy gyfrwng *Blas am Oes* ac yn cydnabod y bydd yn gwneud cyfraniad pwysig at symud yr agenda bwyta'n iach presennol yn ei flaen. Serch hynny, er bod llawer o ysgolion wedi ymgymryd â'r agenda hwn ar gyfer bwyta'n iach yn ôl pob sôn, rydyn ni'n rhannu pryderon rhai o'r rhai a roddodd dystiolaeth fod yna gryn amrywiaeth yn y trefniadau ar gyfer gwella bwyta'n iach ar draws ysgolion Cymru. Rydyn ni'n credu bod pob plentyn a phob person ifanc yn haeddu dechrau iach yn eu bywyd ac y bydd y Mesur arfaethedig yn fframwaith addas i sicrhau cysondeb a thegwch ynddo.
4. Ar sail yr uchod, rydyn ni'n credu bod ymagwedd statudol at fwyta'n iach yn yr ysgolion yn haeddiannol ac felly rydyn ni'n ategu egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig. Er hynny, rydyn ni'n cydnabod y pryder a godwyd yn y dystiolaeth ynghylch amseru'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â phrosiect ymchwil *Blas am Oes*, ond dydyn ni ddim yn credu bod hyn yn ddigon o reswm dros ohirio'r Mesur arfaethedig, o gofio bod y prosiect ymchwil yn canolbwyntio ar safonau maeth, sef un elfen yn unig yn y ddeddfwriaeth. Yn ychwanegol, rydyn ni'n credu y bydd y diffyg dyddiadau cychwyn yn y Mesur arfaethedig yn caniatáu hyblygrwydd i'r Gweinidog gyflwyno'r darpariaethau ar adeg briodol, e.e. er mwyn cymryd deilliannau'r prosiect ymchwil i ystyriaeth cyn cyflwyno rheoliadau o dan Adran 7. Oherwydd hyn, rydyn ni'n credu y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei symud yn ei flaen yn ddi-oed.
5. Rydyn ni'n cydnabod y gallai'r ddyletswydd i hybu bwyta'n iach arwain at gynnydd yn llwyth gwaith yr 'awdurdodau perthnasol'. Rydyn ni'n cytuno â'r rhai a roddodd dystiolaeth am yr angen i gadw mewn cof y gallai beichiau ychwanegol gael eu creu wrth weithredu'r darpariaethau yn Adran 1. Er gwaethaf hynny, rydyn ni'n credu bod yr elfen o hybu yn y Mesur

arfaethedig yn allweddol ar gyfer newid agweddau ac ymddygiad tuag at fwyta'n iach, ac os yw'n llwyddiannus, y gallai greu manteision addysgol a manteision iechyd hirdymor, arwyddocaol ledled Cymru.

6. Rydyn ni'n nodi sylwadau Jenny Randerson AC ynghylch lefel y manylder y darperir ar ei chyfer yn Adran 1(1) ac rydyn ni'n fodlon mai canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru yw'r ffordd fwyaf priodol i bennu'r safonau gofynnol, Rydyn ni'n cytuno â'r tystion y bydd y canllawiau hyn yn holl-bwysig er mwyn sicrhau ymagwedd gyson a deilliannau llwyddiannus. I'r perwyl hwn, **rydyn ni'n argymell y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei gryfhau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi canllawiau o dan Adran 1(3).**

7. Rydyn ni'n derbyn bod cwestiwn y bwyd y deuir ag e i'r ysgol y tu allan i gwmpas y Mesur arfaethedig. Er hynny, rydyn ni'n cydnabod y gefnogaeth gref yn y dystiolaeth i'r angen i fynd i'r afael â hyn, yn enwedig felly y farn y gallai methu â gwneud hynny danseilio effeithiolrwydd y Mesur arfaethedig. I'r perwyl hwn, **rydyn ni'n argymell bod y canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan Adran 1 yn annog pob ysgol i ddatblygu a gweithredu polisi ar ginio parod a hynny mewn partneriaeth â rhieni a gofalwyr.**

8. Rydyn ni'n argymell y dylai'r Mesur arfaethedig ddarparu mai Gweinidogion Cymru yn hytrach na'r holl 'awdurdodau perthnasol' a fydd yn gorfod 'rhoi sylw i gyngor gwyddonol cyfrifol sy'n berthnasol'. Rydyn ni'n argymell hefyd y dylai ystyr 'cyngor gwyddonol cyfrifol sy'n berthnasol' gael ei hegluro yn y Mesur arfaethedig er mwyn osgoi camddehongli.

9. Rydyn ni'n fodlon ar y ddyletswydd bellach ar Weinidogion Cymru y darperir ar ei chyfer yn Adran 2.

10. Rydyn ni'n cydnabod mai gwella bwyta'n iach mewn ysgolion yw diben a nod cyffredinol y Mesur arfaethedig ac, oherwydd hynny, rydyn ni'n credu y dylai ystyr 'bwyta'n iach' y darperir ar ei chyfer yn Adran 3 adlewyrchu hynny'n llawn. Er ein bod yn cefnogi'r bwriad i ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd yn y Mesur arfaethedig, fydden ni ddim am i hynny ei atal rhag llwyddo. Rydyn ni'n dal heb ein darbwylllo mai Adran 3 yw'r lle priodol yn y Mesur arfaethedig i hybu egwyddorion cynaliadwyedd. Oherwydd hynny, **rydyn ni'n argymell y dylid rhoi ystyriaeth i gynnwys darpariaeth ar wahân yn y Mesur arfaethedig gan anelu at hybu egwyddorion cynaliadwyedd. Rydyn ni hefyd yn argymell y dylid darparu digon o gymorth i'r rhai sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno'r gwasanaeth prydau ysgol i'w helpu i roi'r egwyddorion hyn ar waith.**

11. Rydyn ni'n cydnabod mor bwysig yw monitro a chloriannu'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth symud agenda bwyta'n iach yn ei flaen ac yn derbyn haerriad Jenny Randerson AC ac eraill y bydd hynny'n helpu i sicrhau bod digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r mater hwn yn barhaus. Rydyn ni'n cydnabod y pryderon a godwyd yn y dystiolaeth am y baich gweinyddol a

biwrocratig posibl y gallai'r trefniadau hyn eu gosod ar yr awdurdodau. Er hynny, rydyn ni'n credu y bydd y trefniadau y darperir ar eu cyfer yn y Mesur arfaethedig, yn ymarferol, yn estyniad ar y trefniadau presennol i raddau helaeth ac yn newid ffocws ynddyn nhw, a dim byd arall. Ar y sail honno, o ran egwyddor rydyn ni'n cefnogi'r trefniadau ar gyfer adroddiadau ac arolygiadau y darperir ar eu cyfer yn Adrannau 4, 5 a 6.

12. Er gwaethaf yr uchod, rydyn ni'n rhannu'r pryderon a godwyd yn y dystiolaeth am sut y caiff effaith y ddyletswydd i hybu bwyta'n iach (Adran 1(1)) ei mesur. Yn benodol, rydyn ni'n amau a yw'n briodol i gyrff llywodraethu ac Estyn gyflwyno adroddiadau ar i ba raddau y mae'n ymddangos bod y ddyletswydd wedi arwain at gynnydd mewn bwyta'n iach. I'r perwyl hwn, er ein bod yn derbyn bod angen mesur llwyddiant a/neu ddeilliannau'r ddyletswydd yn Adran 1(1), rydyn ni'n argymhell y dylid meddwl rhagor am y ffordd orau i ddarparu ar gyfer hyn yn y Mesur arfaethedig.

13. Rydyn ni'n nodi'r ymagwedd thematig at arolygu bwyta'n iach a gynigiwyd gan Estyn. Er ein bod yn ategu'r ymagwedd hon, rydyn ni'n credu mai'r peth gorau fyddai defnyddio gwaith arolygu thematig i gydategu'r gofyniad y darperir ar ei gyfer yn Adran 5, yn hytrach na'i ddisodli.

14. Ymhellach, oherwydd y dryswch ymddangosiadol ynghylch rôl Estyn wrth arolygu safonau maeth mwy caeth y darperir ar ei chyfer yn Adran 7, **rydyn ni'n argymhell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ystyried sut y gellid sicrhau mwy o eglurder.**

15. Rydyn ni'n cydnabod pwerau presennol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â safonau maeth prydau ysgol ac yn nodi nad yw'r rhain yn cael eu harfer ar hyn o bryd. Er hynny, rydyn ni'n cydnabod bod y Mesur arfaethedig yn ceisio cydgrynhoi a chryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol ar fwyta'n iach mewn ysgolion ac, i'r perwyl hwnnw rydyn ni'n fodlon ynglŷn â chynnwys y ddarpariaeth yn Adran 7.

16. Er ein bod yn croesawu ymarfer peilot ar gyfer safonau maeth uwch drwy gyfrwng *Blas am Oes*, rydyn ni'n cytuno â'r tystion fod angen rhagor o waith i wella safonau maeth bwyd yn yr ysgolion. Rydyn ni'n cydnabod bod y gofynion yn Adran 7(2) wedi'u seilio ar y manylebau sy'n cael eu rhoi ar waith drwy gyfrwng *Blas am Oes*, ac yn cynnig dilyniant rhesymegol i'r manylebau hynny. Rydyn ni'n credu y bydd cynnwys y gofynion hyn yn helpu i sicrhau darpariaeth gyson a chyfartal o ran bwyd mewn ysgolion ledled Cymru. Ar y sail honno, ac oherwydd cryfder y dystiolaeth, **rydyn ni'n argymhell y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei gryfhau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan Adran 7 o'i gyferbynnu â'u galluogi i wneud hynny.** Er ein bod yn derbyn mai mater i Weinidogion Cymru benderfynu arno yn y pen draw fydd arfer y pwerau hyn (fel y mae wedi'i nodi yn y darpariaethau cychwyn yn Adran 16), rydyn ni'n credu y bydd cryfhau'r ddarpariaeth yn creu disgwyliad iddyn nhw wneud hynny.

17. Rydyn ni'n nodi'r gefnogaeth gref yn y dystiolaeth i'r ddarpariaeth yn Adran 8 ac yn fodlon i'r ddyletswydd, sy'n adeiladu ar y ddeddfwriaeth bresennol, gael ei chynnwys yn y Mesur arfaethedig. Rydyn ni'n cydnabod y dystiolaeth a ddaeth i law ynghylch manylebau manylach ynghylch argaeledd dŵr yfed a'i ffynhonnell ac yn credu y byddai'n fwy priodol rhoi sylw i'r rhain drwy gyfrwng canllawiau a gâi eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru. I'r perwyl hwn, **rydyn ni'n argymhell y dylai canllawiau o dan Adran 8(2) ei gwneud yn ofynnol i'r cyflenwad o ddŵr yfed fod ar gael yn hwylus, bod ar wahân yn ffisegol i'r tai bach ac, os oes modd, cael ei godi o'r prif gyflenwad.**

18. Rydyn ni'n derbyn bod cwestiwn cyfleusterau tai bach y tu allan i gwmpas y Mesur arfaethedig. Er hynny, o gofio cryfder y dystiolaeth y gallai methu â mynd i'r afael â chyfleusterau tai bach gwael danseilio effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn Adran 8, hoffem annog Llywodraeth y Cynulliad i ystyried y ffordd orau i roi sylw i'r mater hwn.

19. Rydyn ni'n cydnabod y gefnogaeth gyffredinol yn y dystiolaeth i hybu prydau yn yr ysgolion ac i ddiogelu manylion adnabod disgyblion sy'n cael cinio ysgol am ddim. Rydyn ni'n derbyn y dystiolaeth ynghylch cymhlethdod y ffactorau sy'n effeithio ar y niferoedd sy'n cymryd prydau ysgol. Oherwydd y cymhlethdod hwn, ar y cyd â'r angen isorweddol i ddarparu cymorth digonol i'r rhai sy'n gweithredu'r darpariaethau allweddol, **rydyn ni'n argymhell y dylai'r Mesur arfaethedig gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau mewn perthynas ag Adran 9.**

20. Yn gysylltiedig â hyn, rydyn ni'n cydnabod mor bwysig yw creu 'profiad bwyta' cadarnhaol i'r disgyblion a'r effaith gadarnhaol y mae hyn yn ei chael ar wella bwyta'n iach. Rydyn ni'n cydnabod nad yw'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth benodol i roi sylw i'r mater hwn. I'r perwyl hwn, **rydyn ni'n argymhell y dylai canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (naill ai o dan adran 1(1) neu, os darperir ar eu cyfer o dan Adran 9) annog pob ysgol i sicrhau bod ansawdd y profiad bwyta yn addas i hybu bwyta'n iach.**

21. Rydyn ni'n cydnabod ac yn derbyn y farn y byddai diogelu manylion adnabod y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim y darperir ar ei gyfer yn Adran 10 yn helpu i roi sylw i'r stigma sy'n atal disgyblion rhag cymryd eu hawliau. Rydyn ni'n cydnabod mor bwysig yw canllawiau wrth sicrhau agwedd gyson a chanlyniadau llwyddiannus. I'r perwyl hwn, **rydyn ni'n argymhell y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei gryfhau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau o dan Adran 10(6).**

22. Rydyn ni'n nodi casgliadau'r Pwyllgor Cyllid. Er hynny, oherwydd y pryderon a godwyd yn y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor hwn, yn enwedig ynghylch y costau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â gwireddu safonau maeth uwch, rydyn ni'n awgrymu y dylai Llywodraeth y Cynulliad archwilio'n llawn oblygiadau ariannol gweithredu'r rheoliadau y darperir ar eu cyfer yn y Mesur arfaethedig cyn iddyn nhw gael eu gwneud.

23. Rydyn ni'n nodi casgliadau'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth. Er ein bod yn fodlon ar hyd a lled y pwerau i wneud rheoliadau sydd i'w cael yn y Mesur arfaethedig, rydyn ni wedi argymhell y dylai Adran 7 gael ei chryfhau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â safonau maeth, o'i gyferbynnu â'u galluogi i wneud hynny.

1. Rhagymadrodd

1. Ym mis Mehefin 2007, bu Jenny Randerson AC yn llwyddiannus yn y balot cyntaf a gynhaliwyd gan y Cynulliad i gael yr hawl i gyflwyno Mesur arfaethedig Aelod, yn unol â Rheol Sefydlog 23.99.¹ Ym mis Medi 2007, cytunodd y Cynulliad wedyn y caniateid i Fesur Cynulliad arfaethedig Jenny Randerson AC ynghylch bwyta'n iach mewn ysgolion gael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Cynulliad.² Ar 14 Mawrth 2008, gosododd Jenny Randerson AC Fesur arfaethedig Bwyta'n iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008³ gerbron y Cynulliad ynghyd â Memorandwm Esboniadol.⁴

2. Yn ei gyfarfod ar 8 Ebrill 2008, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cyfeirio'r Mesur arfaethedig at bwyllgor er mwyn i'r egwyddorion cyffredinol gael eu hystyried (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 23.21.⁵ Cytunodd hefyd fod rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Mesur arfaethedig heb fod yn hwyrach na 13 wythnos ar ôl dyddiad sefydlu'r pwyllgor.

3. Yn dilyn penderfyniad yn y cyfarfod llawn ar 30 Ebrill 2008, cafodd y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n iach mewn Ysgolion ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 21.⁶

Cylch gorchwyl y gwaith craffu

4. Yn ein cyfarfod cyntaf ar 13 Mai 2008, cytunwyd ar y fframwaith canlynol ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig -

Ystyried:

- (i) yr angen am Fesur Cynulliad i hybu bwyta'n iach mewn ysgolion;
- (ii) y darpariaethau allweddol a nodwyd yn y Mesur Cynulliad arfaethedig;
- (iii) goblygiadau ymarferol sefydlu'r darpariaethau sydd yn y Mesur arfaethedig;
- (iv) yr angen am ddarpariaethau ychwanegol yn y Mesur arfaethedig;

¹ Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2007.

² Cofnod y Trafodion, 19 Medi 2007.

³ <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=79205&ds=3/2008>

⁴ <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=79208&ds=3/2008>

⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Busnes, BC(3)-09-08, Cofnodion y Pwyllgor, 8 Ebrill 2008.

⁶ Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2008.

- (v) a yw'r Mesur arfaethedig yn gwireddu ei ddiben a'i nod cyffredinol.

Ymagwedd y Pwyllgor

5. Cyhoeddodd y Pwyllgor alwad gyffredinol am dystiolaeth, gan wahodd y rhanddeiliaid allweddol ym maes llywodraeth leol, addysg ac iechyd yn bennaf i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i fwydo'n gwaith. Ceir rhestr o'r ymatebion ymgynghori yn Atodiad 1.
6. Cymerwyd tystiolaeth lafar oddi wrth nifer o dystion. Mae'r manylion i'w gweld yn Atodiad 2.
7. Roedden ni'n teimlo hefyd ei bod yn bwysig ymgynghori â phlant a phobl ifanc y byddai'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnyn nhw. I'r perwyl hwnnw, cafodd holiaduron wedi'u seilio ar y darpariaethau allweddol yn y Mesur arfaethedig eu hanfon at sampl o ddeg y cant o ysgolion Cymru. Hefyd, cafodd gwaith ei wneud gan Wasanaeth Addysg y Cynulliad i ofyn barn disgyblion. Daeth dros 700 o ymatebion i law. Mae'r manylion i'w gweld yn Atodiad 3.
8. Yr adroddiad a'r argymhellion canlynol yw'r casgliadau yr ydyn ni wedi dod iddyn nhw ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod ein gwaith. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad.

2. Y cefndir

9. Mae'r prif bŵer sy'n galluogi'r Cynulliad i wneud Mesur mewn perthynas â bwyta'n iach mewn ysgolion i'w gael ym Mater 5.9 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006⁷ -

Matter 5.9

Provision about food and drink provided on school premises or provided for children at a place where they receive education or childcare.

10. Yn ychwanegol, mae Mater 5.4 yn berthnasol i hybu bwyta'n iach mewn ysgolion yn fwy cyffredinol -

Matter 5.4

Provision about the curriculum in schools maintained by local education authorities.

11. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig yn dweud mai caniatáu datblygu, ac wedyn gweithredu, 'polisi cynhwysfawr "wedi'i wneud yng Nghymru" yn ymwneud â maeth mewn ysgolion'⁸ yw prif ddiben y ddeddfwriaeth. Mae'n pwysleisio mor bwysig yw ymagwedd 'holistig' a'r angen i sicrhau nid yn unig fod y bwyd a ddarperir mewn ysgolion yn faethlon, ond bod bwyta'n iach yn rhan annatod o broses addysg.⁹

12. Mae'r cyd-destun polisi y mae'r Mesur arfaethedig yn cael ei gyflwyno ynddo, ynghyd â'r darpariaethau allweddol a geir ynddo, wedi'u hamlinellu yn y Memorandwm Esboniadol.

⁷ Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, p.32

⁸ Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008, Memorandwm Esboniadol, MPM-02-EM-S1, paragraff 3.1.

⁹ Ibid paragraff 3.1-3.2.

3. Yr egwyddorion cyffredinol

13. Cafwyd cefnogaeth eang i egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, hynny yw datblygu a gweithredu polisi holistig, cynhwysfawr, wedi'i wneud yng Nghymru ynghylch maeth yn yr ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdodau lleol. Er hynny, ym marn rhai roedd hyn yn wir am fod yr egwyddorion yn debyg i'r egwyddorion y cafodd menter Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Blas am Oes*, ei seilio arnyn nhw. Dadleuai nifer o'r rhai a oedd yn cefnogi nodau cyffredinol y Mesur arfaethedig nad oedd angen ymagwedd statudol ac y gellid sicrhau gwelliannau mewn bwyta'n iach mewn ysgolion heb droi at ddeddfwriaeth.

14. Wrth graffu ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, a chan gydnabod y gwaith presennol sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy gyfrwng *Blas am Oes*, rhoesom ystyriaeth fanwl i'r angen am ddeddfwriaeth ym maes bwyta'n iach mewn ysgolion, ac i amseru deddfwriaeth o'r fath. Buom yn edrych yn bur fanwl hefyd ar y darpariaethau allweddol yn y Mesur arfaethedig er mwyn canfod a oedden nhw'n briodol ac yn ymarferol.

15. Rydyn ni'n cydnabod mai Mesur arfaethedig Aelod yw'r ddeddfwriaeth ac na fydd gan Jenny Randerson AC, felly, fawr o reolaeth dros unrhyw reoliadau dilynol a fydd yn cael eu gwneud, ac unrhyw ganllawiau fydd yn cael eu cyhoeddi, gan Weinidogion Cymru. Oherwydd hynny, lle mae argymhellion y Pwyllgor yn ymwneud yn uniongyrchol â rheoliadau neu ganllawiau, at Weinidogion Cymru y maen nhw wedi'u hanelu.

i. Yr angen am ddeddfwriaeth

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

16. Rhoddodd llawer o'r rhai a roddodd dystiolaeth groeso yn benodol i'r Mesur arfaethedig gan gredu bod angen pendant wedi'i weld am ddeddfwriaeth ym maes bwyta'n iach mewn ysgolion. Ar y llaw arall, roedd yna rai a deimlai nad oedd angen ymagwedd statudol o'r fath, yn enwedig felly am fod menter Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Blas am Oes*, wedi'i chyflwyno ac yn parhau i gael ei rhoi ar waith.

17. Roedd nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth yn credu y byddai'r Mesur arfaethedig yn dod â manteision iechyd arwyddocaol ac yn helpu i leddfu'r effeithiau negyddol hirdymor y mae deiet yn eu cael ar iechyd plant a phobl ifanc.¹⁰ Yn benodol, cafwyd cydnabyddiaeth bod angen rhoi sylw i faethiad gwael ac ymateb i'r cynnydd yn lefelau gordewdra ymysg plant, a hynny ar fyrder. Yn wir, yn eu dystiolaeth nhw i'r Pwyllgor, dywedodd Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr:

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES11, 12, 13, 14 ac 20

‘There is a definite need for an Assembly Measure in this area in light of the fact that 22% of boys and 17% of girls aged 13 are overweight or obese.’¹¹

18. Wrth ategu’r Mesur arfaethedig, tanlinellodd Sefydliad Prydeinig y Galon y cysylltiad rhwng deiet afiach a chlefyd coronaidd y galon (CHD) gan awgrymu y byddai newidiadau yn y deiet, megis cymryd llai o fraster, siwgr a halen, yn helpu i ostwng cyfraddau CHD.¹² Aeth y Sefydliad ymlaen i bwysleisio mor bwysig yw sefydlu dewisiadau iach yn y deiet yn ystod plentynod.¹³

19. Yn ychwanegol, teimlai Diabetes UK Cymru y byddai’r Mesur arfaethedig yn helpu i leihau’r perygl o gynnydd mewn diabetes Math 2.¹⁴

20. Yn ychwanegol at hyn, awgrymwyd bod cysylltiad rhwng gwelliannau yn neiet disgyblion a gwelliannau mewn ymddygiad ac yn y diddordeb mewn gwaith ysgol.¹⁵ Wrth ategu’r Mesur arfaethedig, dywedodd Sefydliad Prydeinig y Galon:

‘...nutritious lunches are an important step towards higher attainment among students. In addition, there is a wealth of anecdotal evidence suggesting that when children’s diets improve, their behaviour does too. Children and young people who do well at school go on to lead healthier lives - helping to offset concerns about long-term effects of diet-related illness, and the cost of those illnesses to the NHS.’¹⁶

21. Awgrymodd rhai o’r rhai a roddodd dystiolaeth fod y trefniadau presennol, sydd wedi’u seilio’n bennaf ar ymagwedd wirfoddol ac sy’n dibynnu ar gydweithredu, wedi methu â sicrhau bod pob ysgol yn rhoi’r flaenoriaeth haeddiannol i fwyta’n iach. Ar y llaw arall, byddai’r Mesur arfaethedig yn sicrhau y byddai’n ofynnol i bob ysgol gymryd camau i wella bwyta’n iach ac yn sicrhau ymagwedd gyson ledled Cymru.

22. Awgrymodd yr Athro Moore fod yna ‘anecdotal feeling for the huge variability in practice’ ar draws ysgolion Cymru. Aeth yn ei flaen i ddweud:

‘More systematically...a survey of schools’ policies and curriculum action supporting healthy eating...has found variable practice across schools. So, we know that there is that huge variability and, by definition, that means that there is a lot of substandard practice and room for improvement.’¹⁷

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES20.

¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, HES13.

¹³ Ibid.

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES14.

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES11 a 13.

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES13.

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 8, 24 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta’n Iach mewn Ysgolion.

23. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, esboniodd Estyn fod eu hadroddiad nhw ar 'Bwyd a ffitrwydd'¹⁸ wedi gweld bod cynnydd wedi'i wneud o ran bwyta'n iach mewn ysgolion yn y blynyddoedd diwethaf. Er hynny, aeth yr adroddiad ymlaen i gydnabod, er bod pob ysgol yn rhoi rhywfaint o sylw i agenda bwyta'n iach, fod yna amrywio pur sylweddol rhwng ysgolion o ran y pwysigrwydd oedd yn cael ei roi iddo, y mathau o gamau a oedd yn cael eu cymryd a'u heffaith wedyn.¹⁹

24. Yn wir, eglurodd Estyn fod angen rhagor o weithredu amserol, a bod enghreifftiau i'w gweld yn yr argymhellion yn eu hadroddiad 'Bwyd a ffitrwydd'. Er hynny, wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, roddodd y Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ddim ymrwymiad ynglŷn â'r angen am ymagwedd statudol, gan ddweud:

'Whether this legislation is strictly necessary in order to drive further progress is an open question from our point of view. It may be that producing stronger guidance, and giving that the sufficient backing and resource required would also be sufficient.'²⁰

25. Teimlai rhai o'r rhai a roddodd dystiolaeth y byddai'r Mesur arfaethedig yn cydategu ac yn cryfhau'r mentrau presennol a'i fod yn cynnig ymagwedd gyd-drefnedig a holistig at wella bwyta'n iach mewn ysgolion.

26. Er gwaethaf y gefnogaeth i'r Mesur arfaethedig y manylwyd arni uchod, cafwyd teimlad y byddai canllawiau a chymorth, ymarferol ac ariannol, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith mewn modd effeithiol. Yn ychwanegol, byddai'n bwysig cofio'r baich ychwanegol a fyddai'n cael ei osod ar yr 'awdurdodau perthnasol', yn benodol felly, penaethiaid ysgolion, ac osgoi dyblygu arferion sydd eisoes yn digwydd. Ymdrinnir â'r materion hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad o dan yr adrannau hynny o'r Mesur arfaethedig y maen nhw'n cyfeirio atyn nhw yn benodol.

27. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, rhoddodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ('y Gweinidog') ddisgrifiad manwl o ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ('Llywodraeth y Cynulliad') at wella bwyta'n iach yn yr ysgolion.²¹ Drwy ei thystiolaeth ysgrifenedig, esboniodd y Gweinidog fod Llywodraeth y Cynulliad wrthi yn 'hybu' amryw o fentrau bwyta'n iach gan bwysleisio mor bwysig yw ennyn ymroddiad y rhanddeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc drwy 'persuasion, participation and partnership'.²² Haerodd y Gweinidog:

¹⁸ Estyn, *Bwyd a ffitrwydd: adroddiad ar ba mor dda y mae ysgolion yng Nghymru yn cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn iach ac yn weithgar*, Mai 2008

¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES19.

²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 60, 24 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES 42.

²² Ibid.

‘Appetite for Life is our holistic, comprehensive ‘made in Wales’ policy on nutrition in schools. Whilst the proposed Measure would bring together existing legislation and provide for several of the actions in Appetite for Life to be given a statutory basis it may not be necessary to deliver this agenda across schools in Wales.’²³

28. Pan gafodd ei holi gan y Pwyllgor ynghylch yr angen am y Mesur arfaethedig, daliai’r Gweinidog ei bod yn dal yn agored ei meddwl ai dyna’r ffordd fwyaf effeithiol i wella bwyta’n iach yn yr ysgolion.²⁴ Serch hynny, aeth yn ei blaen i ddatgan:

‘...it is fair to say that I remain to be convinced that a Measure is necessary to take this agenda forward effectively...’²⁵

a

‘...we have not considered that ‘Appetite for Life’ needs to be underpinned by legislation at the moment. We have decided to take a different approach, but we intended to keep under review whether we would need to make regulations under the powers that we have.’²⁶

29. Pan ofynnwyd a oedd y Mesur arfaethedig yn gwrthdaro â chynllun gweithredu *Blas am Oes*, dywedodd y Gweinidog:

‘...there are no conflicts in terms of overall objectives...’²⁷

30. Tanlinellodd nifer o’r rhai a oedd o blaid egwyddorion y Mesur arfaethedig fod angen rhoi ystyriaeth ofalus i amseru’r ddeddfwriaeth, o gofio’r gwaith a oedd yn cael ei wneud drwy gyfrwng *Blas am Oes*. Awgrymodd rhai y gallai’r Mesur arfaethedig fod yn rhy gynnar ac y byddai prosiect ymchwil arfaethedig *Blas am Oes* yn helpu i fwydo cynigion ar gyfer deddfwriaeth yn well ac yn rhoi arwydd clir o’r goblygiadau ariannol. Oherwydd hyn, roedd rhai yn teimlo y byddai’n ddoethach gohirio’r Mesur arfaethedig tan ar ôl canlyniadau’r prosiect ymchwil, a fydd yn dod i ben ym mis Medi 2010. Mae sylw manylach yn cael ei roi i gwestiwn amseru’r Mesur arfaethedig yn adran 1(ii).

31. Doedd rhai o’r rhai a roddodd dystiolaeth, yn enwedig y rhai mewn llywodraeth leol, ddim yn credu bod angen y Mesur arfaethedig. Soniodd nifer o awdurdodau lleol am yr ‘ymrwymiad’ presennol i egwyddor bwyta’n iach mewn ysgolion a dweud bod *Rheoliadau Addysg (Safonau Maeth Cinio Ysgol) (Cymru) 2001*, eisoes yn cynnwys gofyniad bod rhaid bodloni safonau

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES42.

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 5, 3 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta’n Iach mewn Ysgolion.

²⁵ Ibid.

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 10, 3 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta’n Iach mewn Ysgolion.

²⁷ Ibid, paragraff 11.

maeth statudol.²⁸ Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Arlwywyr yr Awdurdodau Lleol:

‘Local authority caterers in Wales are totally committed to the healthy eating principles and are already providing healthy and nutritious meals within the financial constraints and budgets within their authorities.’²⁹

32. Yn gyffredinol, roedd y rhai a gredai fod y Mesur arfaethedig yn ddiangen yn credu bod agenda bwyta’n iach yn symud ymlaen yn llwyddiannus a bod y mentrau presennol yn cael effaith gadarnhaol. Yn wir, haerodd Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru (NAHT Cymru):

‘The majority of schools, if not all schools, are involved in existing and effective programmes...and working closely with organisations...We do not feel that legislative powers are the way forward.’³⁰

33. Aeth NAHT Cymru ymlaen i godi pryder bod y Mesur arfaethedig yn gwrthdaro â menter Llywodraeth y Cynulliad *Blas am Oes*. Awgrymwyd y byddai symud at ymagwedd statudol yn niweidio’r ewyllys da bresennol ac yn tanseilio’r gwaith sy’n cael ei wneud drwy gyfrwng *Blas am Oes*.³¹

34. Pryder penodol i’r rhai mewn llywodraeth leol oedd unrhyw feichiau biwrocraidd ac ariannol ychwanegol a gâi eu gosod ar yr awdurdodau lleol yn sgil rhoi’r Mesur arfaethedig ar waith. Dywedodd Prif Weithredwr Cyngor Bro Morgannwg na fyddai’r Mesur arfaethedig:

‘...in line with the agenda for ‘reducing the burdens’ on local government...’³²

35. Aeth ymlaen i awgrymu y byddai’r ddeddfwriaeth yn tynnu sylw oddi ar bryderon pwysicach gan ddweud:

‘...the priorities for local authorities should continue to be focused on improving educational outcomes for pupils and on the quality of the school buildings.’³³

36. Awgrymodd nifer o’r rhai a roddodd dystiolaeth fod yr awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn wynebu pwysau ariannol, a allai gael eu gwaethygu pe bai’r Mesur arfaethedig yn cael ei roi ar waith. Hefyd, codwyd pryder bod yr amcangyfrif o gostau anuniongyrchol y Mesur arfaethedig, sef y costau posibl a fyddai’n deillio o reoliadau a gâi eu gwneud yn y dyfodol gan Weinidogion Cymru, yn rhy isel. Awgrymwyd y byddai deilliannau prosiect ymchwil *Blas*

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES27, 30, 31 a 39.

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES22.

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES36.

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES8.

³² Tystiolaeth ysgrifenedig, HES3.

³³ Ibid.

am Oes yn rhoi arwydd clir o'r costau a fyddai'n gysylltiedig â rhoi'r Mesur arfaethedig ar waith. Wnaeth y Pwyllgor ddim edrych yn fanwl ar y materion hyn, o gofio bod y Pwyllgor Cyllid wedi ystyried goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig ac wedi cyflwyno adroddiad wedyn yn unol â Rheol Sefydlog 14.2. Ymdrinnir â barn y Pwyllgor hwn am adroddiad y Pwyllgor Cyllid ym mhennod 5 o'n hadroddid ninnau.

37. Roedd rhai o'r rhai yn y sector addysg yn gwrthwynebu'r Mesur arfaethedig ar y sail y byddai'n arwain at gynnydd yn y llwyth gwaith, ac yn gosod baich annheg, ar athrawon a phrifathrawon yn benodol. Hefyd, awgrymwyd ei bod yn afresymol gosod cymaint o bwyslais ar rôl yr ysgolion wrth wella bwyta'n iach ymhlith plant a phobl ifanc. Unwaith eto, ymdrinnir â'r materion hyn yn fanylach yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Tystiolaeth yr Aelod sy'n gyfrifol

38. Yn ei Memorandwm Esboniadol, dywedodd Jenny Randerson AC:

'Byddai gwneud dim i wella bwyta'n iach mewn ysgolion yn effeithio'n andwyol ar iechyd a lles ein plant a phobl ifanc; mae'n debygol o effeithio'n andwyol ar eu gallu i ganolbwyntio ac yn debygol o ychwanegu at gostau'r gwasanaeth iechyd.'³⁴

39. Aeth ymlaen i haeru mai'r Mesur arfaethedig oedd 'yr unig ddewis' a fyddai'n dwyn ynghyd y ddeddfwriaeth bresennol ac yn darparu 'agwedd gyfannol' at hybu a chaniatáu bwyta'n iach mewn ysgolion. Yn ei barn hi:

[Y Mesur arfaethedig yw'r] 'ffordd fwyaf effeithiol o wella bwyta'n iach, ac i feithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd bwyta'n iach, ym mhob ysgol a gynhelir gan awdurdodau lleol.'

40. Tanlinellodd Jenny Randerson AC hefyd bryderon y Prif Swyddog Meddygol ynghylch y cynnydd mewn gordewdra ac aeth ymlaen i awgrymu bod angen ymagwedd fwy pendant i fynd i'r afael â gordewdra a diabetes ymhlith plant a phobl ifanc.

41. Cydnabu'r ddeddfwriaeth bresennol ym maes bwyta'n iach a'r gwaith cadarnhaol a oedd yn cael ei wneud gan Lywodraeth y Cynulliad, yn enwedig felly yn *Blas am Oes*. Er hynny, roedd yn credu:

'The principle of healthy eating in schools is already established in many schools, but not universally throughout Wales.'³⁵

42. Mewn tystiolaeth ychwanegol i'r Pwyllgor, pwysleisiodd Jenny Randerson AC mor amrywiol yw'r arferion ar draws ysgolion Cymru a'r diffyg

³⁴ Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008, Memorandwm Esboniadol, MPM-02-EM-S1, paragraff 7.8.

³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 20 Mai 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

ymagwedd gyson. Ceid enghreifftiau o hyn yng nghanfyddiadau'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) yn eu hadroddiad *Evaluation of Food and Nutrition Education Provision in Wales*³⁶. Esboniodd hi fod yr SCYA wedi gweld 'significant gaps' yn y ddarpariaeth a bod llawer yn dibynnu ar y diddordeb ymhlith rhai sydd ar y brig yn yr ysgolion.³⁷ Dalai Jenny Randerson AC y byddai'r Mesur arfaethedig yn rhoi sylw i'r amrywiadau presennol ac yn creu cysondeb drwy sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn rhoi digon o flaenoriaeth i wella bwyta'n iach yn yr ysgol.

43. Wrth edrych yn ehangach, cymharodd hi'r 'chwyldro' bwyta'n iach â chwyldroadau cymdeithasol eraill e.e. yfed a gyrru, a'r ymgyrch i atal ysmegu.³⁸ Er mwyn creu newid diwylliannol a chymdeithasol yn yr agwedd at fwyta'n iach, dadleuai fod angen dull deublyg, a fyddai'n cyfuno 'marchnata cymdeithasol' (neu waith hybu) a deddfwriaeth.³⁹

44. Yn olaf, gwrthododd Jenny Randerson AC yn gryf y gred y byddai'r Mesur arfaethedig mewn unrhyw fodd yn tanseilio *Blas am Oes* neu'n gwrthdaro ag e.⁴⁰ Esboniodd ei bod bob amser wedi bwriadu i'r ddeddfwriaeth adeiladu ar fenter Llywodraeth y Cynulliad a'i bod wedi trafod hynny gyda'r Gweinidog cyn drafftio'r Mesur.⁴¹ Yn wir, roedd yn credu bod gan y Mesur arfaethedig y fantais o osod 'Blas am Oes' ar seiliau statudol a phwysleisiodd fod y Mesur arfaethedig yn mynd ymhellach na'r fenter bresennol drwy gynnwys dyletswyddau ychwanegol, megis y ddyletswydd ar yr 'awdurdodau perthnasol' i hybu bwyta'n iach mewn ysgolion ac i gyflwyno adroddiadau ar y cynnydd.⁴²

ii. Amseru

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

45. Fel y dywedwyd o'r blaen, rhoesom ystyriaeth ofalus i amseru'r Mesur arfaethedig, yn enwedig felly o gofio prosiect ymchwil arfaethedig *Blas am Oes*, a daeth cryn dipyn o dystiolaeth i law ynghylch y mater hwn.

46. Wrth ategu'r angen am y Mesur arfaethedig, eglurodd yr Athro Moore ei fod yn teimlo y dylai'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno mewn modd amserol. Pan ofynnwyd iddo a allai'r Mesur arfaethedig fod yn rhy gynnar, dywedodd hyn:

³⁶ *Evaluation of Food and Nutrition Education Provision in Wales – Final Report*, Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, Gorffennaf 2007 (a gomisiynwyd gan Asiantaeth Safonau Bwtyd Cymru).

³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 5, 1 Gorffennaf 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

³⁸ *Ibid.*, paragraff 6.

³⁹ *Ibid.*

⁴⁰ *Ibid.*, paragraff 7.

⁴¹ *Ibid.*, paragraff 16.

⁴² Cofnod y Trafodion, paragraffau 9 ac 11.

'I would usually argue that it is wrong to take premature policy action when the evidence is not in place...but, clearly, that can sometimes take too long...The child obesity epidemic is coming upon us very fast and we have to respond quickly to that.'⁴³

a hefyd

'I am not sure exactly what evidence the 'Appetite for Life' work and the action research based around it will produce that will preclude the importance of taking legislative action.'⁴⁴

47. Cydnabu y gallai deilliannau'r prosiect ymchwil fod yn ddefnyddiol o ran bwydo'r canllawiau dilynol, ond ail-gadarnhaodd:

'...I do not hold out any sort of strong hope that 'Appetite for Life' is going to tackle this kind of patchiness and unevenness or the fact that a lot of actions that the schools will take will not be the most effective...'⁴⁵

48. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 30 uchod, awgrymodd nifer arwyddocaol o'r rhai a roddodd dystiolaeth y gallai fod yn fwy priodol aros am ddeilliannau prosiect ymchwil *Blas am Oes* cyn symud ymlaen â'r Mesur arfaethedig.

49. Teimlai rhai y gallai deilliannau'r prosiect ymchwil fod yn ddefnyddiol wrth fwydo'r gwaith i ddatblygu a gweithredu'r Mesur arfaethedig er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol. Wrth roi dystiolaeth, cydnabu UCAC a Llywodraethwyr Cymru, a oedd yn fras yn cefnogi'r Mesur arfaethedig, y byddai'n werth aros⁴⁶ ac y byddai'n ddoeth iawn⁴⁷ aros am y deilliannau hyn.

50. Teimlid yn gyffredinol y byddai'r deilliannau yn darparu dealltwriaeth o'r costau ariannol a gweinyddol a fyddai'n gysylltiedig â gwella bwyta'n iach mewn ysgolion, yn enwedig rhoi safonau maeth uwch ar waith. Wrth roi dystiolaeth, er eu bod yn cytuno ag egwyddorion y Mesur arfaethedig, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW):

'...it is important that Appetite for Life research and projects continue, in order to make a full assessment of the financial implications and to allow a smooth and planned transition to improved nutritional standards...It would be useful to reassess this

⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraff 11, 24 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

⁴⁴ Ibid., paragraff 11

⁴⁵ Ibid.

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 30, 17 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

⁴⁷ Ibid., paragraff 123.

type of statutory approach in the future when the outcomes of the Appetite for Life work have been fully assessed.’⁴⁸

51. Wrth iddi hi roi tystiolaeth i’r Pwyllgor, awgrymodd y Gweinidog fod y Mesur arfaethedig yn gynamserol ⁴⁹ gan ddatgan:

‘The action research project provides us with an excellent opportunity to develop and test how the persuasion, partnership and participation agenda helps us, and to test out the guidelines that we have consulted upon for implementing the food and nutritional standards and to learn lessons to inform their wider application across all maintained schools in Wales.’⁵⁰

52. Awgrymodd y rhai nad oedden nhw o blaid y Mesur arfaethedig y gallai’r deilliannau gael eu defnyddio i benderfynu a oedd angen ymagwedd statudol mewn gwirionedd. Mewn tystiolaeth i’r Pwyllgor, haerodd Cyngor Dinas Caerdydd:

‘Legislation should not be considered until the research phase of A4L [Appetite for Life] is complete and an analysis of the impact of similar legislation in other countries on the take up of school meals concluded.’⁵¹

53. Yn yr un modd, o’u holi am amseru’r Mesur arfaethedig, dywedodd NAHT Cymru:

‘We would want to see evidence that the Measure is indeed needed and would improve the situation. It is premature and we should wait for the outcome of ‘Appetite for Life’.’⁵²

Tystiolaeth yr Aelod sy’n gyfrifol

54. Wrth iddi hithau roi tystiolaeth i’r Pwyllgor, esboniodd Jenny Randerson AC fod prosiect ymchwil *Blas am Oes* yn ymwneud yn bennaf â datblygu a phrofi canllawiau ar safonau maeth ac nad oedd y rheiny’n sicrhau’r ddarpariaeth allweddol yn y Mesur arfaethedig, sef hybu bwyta’n iach.⁵³

55. Aeth ymlaen i esbonio nad oedd yna ddyddiadau cychwyn yn y Mesur arfaethedig ac felly y gallai darpariaethau gwahanol gael eu cychwyn ar adegau gwahanol. Oherwydd hynny, doedd dim byd yn atal y Gweinidogion

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES2.

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 8 a 97, 3 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta’n Iach mewn Ysgolion.

⁵⁰ Ibid., paragraff 8

⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES21.

⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 26, 17 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta’n Iach mewn Ysgolion.

⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff 11, 1 Gorffennaf 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta’n Iach mewn Ysgolion.

rhag aros am ddeilliannau'r prosiect ymchwil cyn cyflwyno rheoliadau ar safonau maeth. Gallai darpariaethau eraill yn y Mesur arfaethedig, gan gynnwys y ddarpariaeth allweddol ynghylch y ddyletswydd i hybu bwyta'n iach, gael eu cychwyn yn gynharach.⁵⁴

56. Yn ychwanegol, dywedodd Jenny Randerson AC wrth y Pwyllgor ei bod yn rhag-weld y cymerai tua 15 mis cyn i'r Mesur arfaethedig orffen pob cyfnod ystyriaeth yn y Cynulliad a sicrhau'r Gymeradwyaeth Frenhinol, a fyddai'n cydweddu'n dda ag amseru cynllun gweithredu a phrosiect ymchwil *Blas am Oes*.⁵⁵

Ein barn ni

57. Rydyn ni'n croesawu'r gefnogaeth gref sydd yna ar gyfer gwella bwyta'n iach yn gyffredinol ac yn nodi bod y mwyafrif llethol o'r rhai a roddodd dystiolaeth yn cydnabod arwyddocâd yr ysgolion wrth symud yr agenda hwn yn ei flaen.

58. Rydyn ni'n rhannu'r pryder a godwyd mewn tystiolaeth am effeithiau hirdymor deiet wael a maeth gwael ar iechyd. Rydyn ni'n derbyn bod angen rhoi sylw i'r cynnydd yn lefelau gordewdra yng Nghymru ac yn credu y bydd addysgu plant am fanteision bwyta'n iach ynghyd â darparu prydau bwyd maethlon yn yr ysgol yn fan cychwyn effeithiol. Yn ychwanegol, rydyn ni'n derbyn bod deiet a maethiad da yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad plant, eu gallu i ddysgu ac i symud yn eu blaen yn gadarnhaol drwy'r ysgol.

59. Rydyn ni'n cydnabod y gefnogaeth eang i egwyddorion y Mesur arfaethedig, ac yn nodi tystiolaeth y Gweinidog nad yw amcanion cyffredinol y Mesur arfaethedig yn gwrthdaro mewn unrhyw fodd ag amcanion cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad yn *Blas am Oes*. Rydyn ni'n croesawu'r ymrwymiad a amlygwyd gan lawer o'r rhanddeiliaid hyd yn hyn i wella bwyta'n iach yn yr ysgolion. Rydyn ni'n cefnogi ac yn ategu'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud drwy gyfrwng *Blas am Oes* ac yn cydnabod y bydd yn gwneud cyfraniad pwysig at symud yr agenda bwyta'n iach presennol yn ei flaen. Serch hynny, er bod llawer o ysgolion wedi ymgymryd â'r agenda hwn ar gyfer bwyta'n iach yn ôl pob sôn, rydyn ni'n rhannu pryderon rhai o'r rhai a roddodd dystiolaeth fod yna gryn amrywiaeth yn y trefniadau ar gyfer gwella bwyta'n iach ar draws ysgolion Cymru. Rydyn ni'n credu bod pob plentyn a phob person ifanc yn haeddu dechrau iach yn eu bywyd ac y bydd y Mesur arfaethedig yn fframwaith addas i sicrhau cysondeb a thegwch ynddo.

60. Ar sail yr uchod, rydyn ni'n credu bod ymagwedd statudol at fwyta'n iach yn yr ysgolion yn haeddiannol ac felly rydyn ni'n ategu egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig. Er hynny, rydyn ni'n cydnabod y pryder a godwyd yn y dystiolaeth ynghylch amseru'r ddeddfwriaeth mewn perthynas

⁵⁴ Cofnod y Trafodion., paragraff 11, 1 Gorffennaf 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n iach mewn ysgolion.

⁵⁵ Ibid., paragraff 59.

â phrosiect ymchwil *Blas am Oes*, ond dydyn ni ddim yn credu bod hyn yn ddigon o reswm dros ohirio'r Mesur arfaethedig, o gofio bod y prosiect ymchwil yn canolbwyntio ar safonau maeth, sef un elfen yn unig yn y ddeddfwriaeth. Yn ychwanegol, rydyn ni'n credu y bydd y diffyg dyddiadau cychwyn yn y Mesur arfaethedig yn caniatáu hyblygrwydd i'r Gweinidog gyflwyno'r darpariaethau ar adeg briodol, e.e. er mwyn cymryd deilliannau'r prosiect ymchwil i ystyriaeth cyn cyflwyno rheoliadau o dan Adran 7. Oherwydd hyn, rydyn ni'n credu y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei symud yn ei flaen yn ddi-oed.

4. Sylwadau penodol ar y darpariaethau

Adran 1 - Dyletswyddau mewn perthynas â hybu bwyta'n iach mewn ysgolion

Y cefndir

61. Mae Adran 1(1) o'r Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, awdurdodau addysg lleol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion i hybu bwyta'n iach ymhlith disgyblion tra byddan nhw yn yr ysgol neu'n ymwneud â gweithgaredd sy'n atodol i'w haddysg.

62. Mae Adran 1(3) o'r Mesur arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau i'r awdurdodau perthnasol ar y ffordd orau i gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid i 'awdurdod' perthnasol 'roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru' ac i unrhyw 'gyngor gwyddonol cyfrifol sy'n berthnasol'.

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

63. Roedd yn ymddangos mewn rhywfaint o'r dystiolaeth fod yna ddiffyg dealltwriaeth cyffredinol ynglŷn â'r gofyniad yn Adran 1(1), ac yn benodol yr hyn y byddai'n ei olygu yn ymarferol a sut yr oedd yn gysylltiedig â'r gwaith presennol ar hybu bwyta'n iach sy'n cael ei wneud gan rai ysgolion. Serch hynny, roedd yna gefnogaeth eang i'r ddyletswydd gyffredinol i hybu bwyta'n iach y darperir ar ei chyfer yn Adran 1(1).

64. Cododd rhai o'r rhai a roddodd dystiolaeth bryder y byddai'r ddyletswydd yn Adran 1(1) yn arwain at osod beichiau ychwanegol ar yr 'awdurdodau perthnasol'. Yn benodol, awgrymwyd y gallai'r ddyletswydd greu gwaith ychwanegol i benaethiaid.

65. Daliai NAHT Cymru a Chymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL Cymru) fod gwaith yn cael ei wneud mewn ysgolion ledled Cymru i hybu bwyta'n iach. Cododd y ddau bryder y gallai gosod dyletswydd statudol ar benaethiaid i hybu bwyta'n iach arwain at ymgyfreitha yn erbyn penaethiaid. Yn wir, awgrymodd ASCL Cymru wedyn:

'...the Measure should place responsibilities and duties on the Governing Body and not the Head teacher.'⁵⁶

66. Pan ofynnwyd iddyn nhw a fyddai manteision y Mesur arfaethedig yn drech na beichiau ychwanegol a gâi eu gosod ar benaethiaid, dywedodd NAHT Cymru:

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES36.

‘Any burden on headteachers, no matter how great, seems to be excused if it is of benefit to others. There are times when a burden becomes too great.’⁵⁷

67. Ar y llaw arall, cydnabu’r Athro Moore fod angen bod yn ymwybodol o’r baich y gallai’r Mesur arfaethedig ei osod ar y cyrff perthnasol, ond roedd e’n credu hyn:

‘Schools need to be encouraged to recognise the potential benefits of children having a good diet, such as improved engagement with schoolwork....We also need to recognise that many of these health benefits will be major, but they will not be of direct benefit to the school: rather, they will be of benefit to the nation and to the NHS in the long-term.’⁵⁸

68. Tanlinellodd nifer o’r rhai a roddodd dystiolaeth mor bwysig yw gweithio mewn partneriaeth. Teimlai Cyngor Sir Ynys Môn y byddai’r ddyletswydd yn Adran 1(1) yn hybu partneriaethau ac yn arwain at bartneriaethau mwy cadarn. Er hynny, roedd Cymdeithas Deieteteg Prydain yn gofidio nad oedd y Mesur arfaethedig yn rhoi digon o bwyslais ar gymuned ehangach yr ysgol. Pwysleisiai eraill rôl rhieni a gofalwyr wrth wella arferion bwyta plant gan gredu y byddai’n bwysig ymgysylltu’n effeithiol â nhw er mwyn sicrhau llwyddiant. Yn benodol, dywedodd ContinYou Cymru:

‘There is a need to promote and enable healthier eating within families and wider communities...for many children and young people their experiences of food in the home and community will be different to those healthy experiences in school and may take time to be embraced. Without a family and community understanding and support change is unlikely to be sustained.’⁵⁹

69. Er bod Adran 1(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar hybu bwyta’n iach, does dim rhagor o fanylion wedi’u cynnwys am sut, neu i ba raddau, y dylai’r ddyletswydd gyffredinol gael ei chyflawni. Tanlinellodd nifer o’r rhai a roddodd dystiolaeth mor bwysig yw polisiau Bwyd a ffitrwydd, a oedd yn cael eu hybu o dan *Blas am Oes*, gan awgrymu y dylai’r rhain fod yn ofyniad statudol ac y dylid darparu ar eu cyfer yn y Mesur arfaethedig. Credai eraill fod cynnwys rhagor o fanylion yn Adran 1(1), e.e. naill ai drwy gynnwys gofynion ar wyneb y Mesur arfaethedig neu mewn rheoliadau yn ddiangen, a’i bod yn bwysig peidio â bod yn rhy orchmynnol.

70. Teimlid yn gyffredinol y byddai ar yr ‘awdurdodau perthnasol’ angen cymorth sylweddol, ar ffurf naill ai canllawiau neu gymorth ymarferol, er

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 51, 17 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta’n Iach mewn Ysgolion.

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 24 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta’n Iach mewn Ysgolion.

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES29.

mwyn llwyddo i gyflawni eu dyletswyddau i hybu bwyta'n iach. Roedd yr Athro Moore yn credu'n gryf mai'r elfen holl-bwysig a fyddai'n pennu llwyddiant y Mesur arfaethedig fyddai:

'...high quality guidance and support mechanisms.'⁶⁰

71. Rhennid y farn hon gan Estyn a oedd hefyd yn tanlinellu bod angen cymorth i roi'r canllawiau hyn ar waith.⁶¹

72. O'u holi'n benodol am ddarparu canllawiau, roedd rhai tystion yn teimlo y dylai Adran 1(3) gael ei chryfhau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi canllawiau, o'i gyferbynnu â'u galluogi i wneud hynny. Yn gysylltiedig â hyn, roedd nifer o dystion, gan gynnwys cynghorydd cyfreithiol y Gweinidog, yn teimlo y byddai'n well i'r gofyniad bod rhaid rhoi sylw i 'gyngor gwyddonol cyfrifol sy'n berthnasol' gael ei osod ar Weinidogion Cymru yn unig, yn rhannol er mwyn sicrhau cysondeb.⁶²

73. Yn ychwanegol, awgrymwyd y gallai'r term 'cyngor gwyddonol cyfrifol sy'n berthnasol' fod yn agored i'w gamddehongli⁶³ ac y byddai'n fuddiol gwella arno⁶⁴ i sicrhau bod yr ystyr yn glir. Yn benodol, dywedodd yr Athro Moore nad oedd yn fodlon iawn:

'...with the term 'reputable', because that requires a very subjective judgement, and there are more objective ways of identifying scientific rigour.'⁶⁵

74. Mynegodd llawer o'r rhai a roddodd dystiolaeth siom nad oedd y Mesur arfaethedig yn rhoi sylw i ansawdd y bwyd y mae disgyblion yn dod ag e i'r ysgol i'w fwyta eu hunain. Yn wir, codwyd pryder y byddai hyn yn tansilio effeithiolrwydd y Mesur arfaethedig gan mai gallu disgyblion i ddod â bwyd 'afiach' i'r ysgol oedd y prif rwystr⁶⁶ a oedd yn atal agenda bwyta'n iach rhag cael ei symud ymlaen. Aeth rhai ymlaen i awgrymu y dylai unrhyw ddeddfwriaeth a fyddai'n anelu at wella bwyta'n iach ganiatáu i sylw gael ei roi i gwestiwn y bwyd y deuir ag e i'r ysgol. I'r perwyl hwn, cafwyd awgrym penodol hefyd y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei gryfhau.

75. Er hynny, mewn cyferbyniad, croesawodd Cyd-ffederasiwn Cenedlaethol y Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon (NCPTA) a'r Gymdeithas Gwneuthurwyr Byrbrydau, Cnau a Chreision (SNACMA) y ffaith nad oedd y

⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES11.

⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES19.

⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 41, 3 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

⁶³ Ibid.

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 30, 24 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

⁶⁵ Ibid.

⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES25.

Mesur arfaethedig yn cynnwys gofynion i gyfyngu ar y bwyd a'r ddiod y deuir â nhw i'r ysgol.⁶⁷

Tystiolaeth yr Aelod sy'n gyfrifol

76. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, esboniodd Jenny Randerson AC nad oedd y ddyletswydd yn Adran 1(1) yn nodi'n fanwl yr hyn a fyddai'n cael ei ddisgwyl oddi wrth yr awdurdodau perthnasol. Yn hytrach, rhagwelid y câi hynny ei wneud drwy gyfrwng y canllawiau y byddai Gweinidogion Cymru'n eu cyhoeddi o dan Adran 1(3), a hynny er mwyn caniatáu digon o hyblygrwydd i fabwysiadu ymagwedd raddol ac i gymryd datblygiadau parhaus a thystiolaeth wyddonol i ystyriaeth.

77. O ran beichiau ychwanegol, haerodd Jenny Randerson AC y byddai'r manteision a geid o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig yn drech na'r rhain, e.e. gwelliannau mewn iechyd corfforol ac emosiynol, ac mewn ymddygiad a dysgu.⁶⁸

78. Roedd hi'n cefnogi egwyddor partneriaeth,⁶⁹ ond nododd y byddai'n anodd deddfu ar gyfer dull o weithredu mewn partneriaeth, gan ddweud:

'Almost by definition, if partnership is going to work, it needs to be done with the goodwill that comes from voluntary effort.'⁷⁰

79. Er bod Jenny Randerson AC yn cydnabod rôl rhieni wrth ddatblygu arferion bwyta plant, awgrymodd y gallai effaith hybu bwyta'n iach ymestyn y tu hwnt i'r ysgolion i ddylanwadu ar amgylchedd y cartref, gan ddweud:

'...I hope that we will be able to encourage the education of parents via their children.'⁷¹

80. Aeth yn ei blaen i haeru:

'...children are clearly influencing their parents' choice of food.'⁷²

81. Wrth ymateb i'r dystiolaeth a gafwyd ynghylch cryfhau'r canllawiau, awgrymodd Jenny Randerson AC nad oedd am fod yn rhy orchmynnol ac nad oedd am leihau hyblygrwydd Gweinidogion Cymru. Er hynny, dywedodd y byddai'n meddwl rhagor am hyn yng ngoleuni adroddiad y Pwyllgor a'i argymhellion dilynol, Yn yr un modd, cytunodd y byddai'n ystyried y term

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES18 ac HES32.

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 37, 20 Mai 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 26, 1 Gorffennaf 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

⁷⁰ Ibid.

⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 44, 20 Mai 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

⁷² Ibid., paragraff 45.

'cyngor perthnasol' a'r angen i osod y gofyniad bod rhaid rhoi sylw i'r cyngor hwnnw ar Weinidogion Cymru yn unig.⁷³

82. Esboniodd Jenny Randerson AC na allai wneud darpariaeth ynghylch rheoleiddio'r bwyd y deuir ag e i'r ysgol gan fod hynny y tu allan i'r prif bŵer sy'n galluogi'r Cynulliad i wneud Mesur mewn perthynas â bwyta'n iach yn yr ysgol sef Mater 5.9 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Serch hynny, fyddai'r Mesur arfaethedig ddim yn atal datblygu polisiau ynglŷn â bwyd y deuir ag e i'r ysgol a gallai hynny gael ei hybu o dan y ddyletswydd yn Adran 1(1) i hybu bwyta'n iach mewn ysgolion.⁷⁴

Ein barn ni

83. Rydyn ni'n cydnabod y gallai'r ddyletswydd i hybu bwyta'n iach arwain at gynnydd yn llwyth gwaith yr 'awdurdodau perthnasol'. Rydyn ni'n cytuno â'r rhai a roddodd dystiolaeth am yr angen i gadw mewn cof y gallai beichiau ychwanegol gael eu creu wrth weithredu'r darpariaethau yn Adran 1. Er gwaethaf hynny, rydyn ni'n credu bod yr elfen o hybu yn y Mesur arfaethedig yn allweddol ar gyfer newid agweddau ac ymddygiad tuag at fwyta'n iach, ac os yw'n llwyddiannus, y gallai greu manteision addysgol a manteision iechyd hirdymor, arwyddocaol ledled Cymru.

84. Rydyn ni'n nodi sylwadau Jenny Randerson AC ynghylch lefel y manylder y darperir ar ei chyfer yn Adran 1(1) ac rydyn ni'n fodlon mai canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru yw'r ffordd fwyaf priodol i bennu'r safonau gofynnol, Rydyn ni'n cytuno â'r tystion y bydd y canllawiau hyn yn holl-bwysig er mwyn sicrhau ymagwedd gyson a deilliannau llwyddiannus. I'r perwyl hwn, **rydyn ni'n argymhell y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei gryfhau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi canllawiau o dan Adran 1(3).**

85. Rydyn ni'n derbyn bod cwestiwn y bwyd y deuir ag e i'r ysgol y tu allan i gwmpas y Mesur arfaethedig. Er hynny, rydyn ni'n cydnabod y gefnogaeth gref yn y dystiolaeth i'r angen i fynd i'r afael â hyn, yn enwedig felly y farn y gallai methu â gwneud hynny danseilio effeithiolrwydd y Mesur arfaethedig. I'r perwyl hwn, **rydyn ni'n argymhell bod y canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan Adran 1 yn annog pob ysgol i ddatblygu a gweithredu polisi ar ginio parod a hynny mewn partneriaeth â rhieni a gofalwyr.**

86. Rydyn ni'n argymhell y dylai'r Mesur arfaethedig ddarparu mai **Gweinidogion Cymru yn hytrach na'r holl 'awdurdodau perthnasol' a fydd yn gorfod 'rhoi sylw i gyngor gwyddonol cyfrifol sy'n berthnasol'. Rydyn ni'n argymhell hefyd y dylai ystyr 'cyngor gwyddonol cyfrifol sy'n**

⁷³ Cofnod y Trafodion, paragraff 48, 1 Gorffennaf 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 17 i 21, 1 Gorffennaf 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

berthnasol' gael ei hegluro yn y Mesur arfaethedig er mwyn osgoi camddehongli.

Adran 2 - Dyletswydd bellach ar Weinidogion Cymru

Y cefndir

87. Mae Adran 2 yn gosod dyletswydd bellach ar Weinidogion Cymru i hybu bwyta'n iach wrth iddyn nhw arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'r cwricwlwm.

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

88. Cyflwynodd nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth sylwadau cyffredinol am y ddarpariaeth ynglŷn â bwyta'n iach yn y cwricwlwm cyfredol. Er bod yna gefnogaeth eang i welliannau yn y cwricwlwm o ran bwyta'n iach, codwyd pryder am y cyfyngiadau ymarferol sy'n bodoli, yn enwedig y diffyg athrawon arbenigol a'r diffyg cyfleusterau cegin i addysgu medrau coginio priodol. Yn wir, tanlinellodd NAHT Cymru nad oedd yr un coleg yng Nghymru yn cynnig hyfforddiant mewn medrau coginio i athrawon.⁷⁵

89. Teimlai'r Athro Moore y byddai sylw da i fwyta'n iach a materion maeth yn y cwricwlwm yn bwysig wrth geisio newid ymddygiad ac agweddau a meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd ddeiet dda.⁷⁶ Teimlai rhai o'r rhai a roddodd dystiolaeth y byddai'r cwricwlwm ysgol newydd, sy'n ymgorffori addysg bwyd yn benodol, yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2008 ymlaen, ac y byddai'n gam cadarnhaol ymlaen.

Tystiolaeth yr Aelod sy'n Gyfrifol

90. Wrth roi dystiolaeth i'r Pwyllgor, esboniodd Jenny Randerson AC y darperir ar gyfer hybu bwyta'n iach mewn ysgolion ar hyn o bryd yn y cwricwlwm, er mai mater ar gyfer disgresiwn Gweinidogion Cymru yw hynny. Byddai'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hybu bwyta'n iach drwy'r cwricwlwm ond mae'n gadael y manylion i gael eu penderfynu ganddyn nhw.⁷⁷

Ein barn ni

91. Rydyn ni'n fodlon ar y ddyletswydd bellach ar Weinidogion Cymru y darperir ar ei chyfer yn Adran 2.

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 68, 17 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 33, 24 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 59, 20 Mai 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

Adran 3 - Ystyr “bwyta’n iach”

Y cefndir

92. Yn y Mesur arfaethedig, ystyr “bwyta’n iach” yw bwyta (ac yfed) bwyd (a diod) y mae eu natur, eu hansawdd a’u maint—

- (a) o les i iechyd y person sy’n ei fwyta neu’n ei hyfed;
- (b) yn peidio â gwneud niwed i iechyd y person sy’n ei fwyta neu’n ei hyfed; ac
- (c) yn peri cyn lleied o niwed ag y bo’n rhesymol bosibl i’r amgylchedd wrth gael eu cynhyrchu, eu prosesu a’u dosbarthu.

93. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol ar y Mesur arfaethedig, bwriad yr ystyr i ‘bwyta’n iach’ y darperir ar ei chyfer yn Adran 3 yw:

‘...darparu diffiniad eang o “fwyta’n iach”, er mwyn cynnwys nid yn unig iechyd yr unigolyn sy’n bwyta’r bwyd ond hefyd ei effaith ar iechyd cyffredinol y boblogaeth a’r amgylchedd.’⁷⁸

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

94. Ychydig yn unig o’r rhai a roddodd dystiolaeth a gyflwynodd sylwadau ar ystyr “bwyta’n iach” y darperir ar ei chyfer yn Adran 3. Er hynny, roedd yna gefnogaeth gyffredinol i gynnwys egwyddorion cynaliadwyedd, yn unol â’r hyn y darperir ar ei gyfer yn Adran 3(c). Er gwaethaf hyn, cododd rhai o’r tystion bryder ynglŷn â sut roedd y diffiniad wedi’i ddrafftio gan amau a oedd yn briodol rhoi sylw i gwestiwn ‘cynaliadwyedd’ yn Adran 3.

95. Yn ei thystiolaeth hithau i’r Pwyllgor, roedd y Gweinidog o blaid cynnwys egwyddorion cynaliadwyedd, ond cododd bryder ynghylch cydnawsedd cysyniad ‘bwyta’n iach’ a ‘chynaliadwyedd’, gan awgrymu y dylai’r olaf gael ei drafod fel elfen ar wahân yn y Mesur arfaethedig.⁷⁹ Gosodwyd amod ar hyn gan Gyngorydd Cyfreithiol y Gweinidog (Mr Roberts) a ddywedodd:

‘When it comes to definitions, our view is that words and definitions should bear the meaning of things as ordinarily constructed. We do not believe that sustainability is encompassed in healthy eating...as it [the definition] is currently constructed, we believe that that is potentially problematic.’⁸⁰

⁷⁸ Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta’n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008, Memorandwm Esboniadol, MPM-02-EM-S1, Nodiadau Esboniadol, paragraff 6.

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 53 a 55, 3 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta’n Iach mewn Ysgolion.

⁸⁰ Ibid., paragraffau 56 a 59.

96. Yn yr un modd, rhoddodd CLILC ac ADEW groeso i'r ffocws ar gynaliadwyedd, ond codi pryder ynglŷn â'r ffordd yr oedd y diffiniad wedi'i ddrafftio.⁸¹

97. Cydnabu'r Athro Moore nad oedd cysylltiad uniongyrchol rhwng Adran 3(c) a bwyta'n iach, ond cydnabu hyn hefyd:

'...sustainable food production and the quality of food production...is an important dimension that is good to have reflected in the Measure.'⁸²

98. Codwyd pryder gan y rhai a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r gwasanaeth prydu ysgol y byddai'n anodd gwireddu'r ddarpariaeth yn Adran 3(c) yn ymarferol. Yn wir, awgrymodd Gweithgor Blas am Oes Casnewydd mai dyhead oedd y ddarpariaeth hon, gan ddatgan:

'...procuring produce that is organic, fair trade and as local as possible...would be high on the [schools'] agenda, but realistically, the money and the processes are not there to do it at present.'⁸³

99. Cododd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru a Chymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr yr angen i roi sylw i ddiogelwch bwyd yn y Mesur arfaethedig.⁸⁴

Tystiolaeth yr Aelod sy'n Gyfrifol

100. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, haerodd Jenny Randerson AC fod y diffiniad yn Adran 3 yn gynhwysfawr iawn.⁸⁵ Serch hynny, roedd yn fodlon rhoi rhagor o ystyriaeth i'r diffiniad yng ngoleuni unrhyw argymhellion y byddai'r Pwyllgor yn eu gwneud.⁸⁶

101. Cadarnhaodd Jenny Randerson AC mor bwysig oedd cynnwys egwyddorion cynaliadwyedd yn y Mesur arfaethedig, yn enwedig felly o gofio dyletswyddau statudol Gweinidogion Cymru (Adran 79) a Chomisiwn y Cynulliad (Atodlen 2, Adran 8) yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* i hybu datblygu cynaliadwy. Doedd hi ddim yn credu y byddai'r gofyniad hwn yn arbennig o feichus. Aeth yn ei blaen i esbonio bod *Blas am Oes* eisoes yn

⁸¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 198, 10 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n iach mewn Ysgolion.

⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 35, 24 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n iach mewn Ysgolion.

⁸³ Cofnod y Trafodion, paragraff 175, 24 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n iach mewn Ysgolion.

⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES20 ac HES34.

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 36, 1 Gorffennaf 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n iach mewn Ysgolion.

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 62, 20 Mai 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n iach mewn Ysgolion.

cynnwys cyfeiriad at yr angen i sicrhau'r deilliannau gorau o ran datblygu cynaliadwy a bod y seilwaith i ategu hynny eisoes ar gael.⁸⁷

102. O ran materion diogelwch bwyd, roedd Jenny Randerson AC o'r farn y byddai cyfeiriad penodol at fwyd diogel yn y Mesur arfaethedig yn ddiangen gan nad yw bwyd yn gallu bod yn iach oni bai ei fod yn ddiogel.⁸⁸

Ein barn ni

103. Rydyn ni'n cydnabod mai gwella bwyta'n iach mewn ysgolion yw diben a nod cyffredinol y Mesur arfaethedig ac, oherwydd hynny, rydyn ni'n credu y dylai ystyr 'bwyta'n iach' y darperir ar ei chyfer yn Adran 3 adlewyrchu hynny'n llawn. Er ein bod yn cefnogi'r bwriad i ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd yn y Mesur arfaethedig, fydden ni ddim am i hynny ei atal rhag llwyddo. Rydyn ni'n dal heb ein darbwylllo mai Adran 3 yw'r lle priodol yn y Mesur arfaethedig i hybu egwyddorion cynaliadwyedd. Oherwydd hynny, **rydyn ni'n argymhell y dylid rhoi ystyriaeth i gynnwys darpariaeth ar wahân yn y Mesur arfaethedig gan anelu at hybu egwyddorion cynaliadwyedd. Rydyn ni hefyd yn argymhell y dylid darparu digon o gymorth i'r rhai sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno'r gwasanaeth prydau ysgol i'w helpu i roi'r egwyddorion hyn ar waith.**

Adrannau 4, 5 a 6 - Ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer adroddiadau ac arolygiadau

Y cefndir

104. Mae Adrannau 4, 5 a 6 o'r Mesur arfaethedig yn darparu'r mecanweithiau ar gyfer cloriannu a monitro'r cynnydd ynglŷn â bwyta'n iach ac i ba raddau y mae'n ymddangos bod cynnydd wedi bod mewn bwyta'n iach mewn ysgolion. Mae dyletswyddau'n cael eu rhoi ar lywodraethwyr ysgol, y Prif Arolygydd Ysgolion a Gweinidogion Cymru.

105. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig yn awgrymu y bydd trefniadau monitro statudol yn sicrhau:

'...bod systemau adrodd a monitro cadarn ac effeithiol yn cael eu rhoi ar waith ac i sicrhau bod y cynnydd a wneir o ran bwyta'n iach yn parhau pan fydd blaenoriaethau eraill yn y system addysg yn cystadlu yn erbyn y polisi hwn.

Drwy osod mewn deddfwriaeth sylfaenol yr angen i fonitro a chyflwyno adroddiadau am y cynnydd a wneir o ran bwyta'n iach, bydd modd sicrhau cysondeb a gwelliant parhaus ar hyd a lled Cymru.'⁸⁹

⁸⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 54, 1 Gorffennaf 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

⁸⁸ Ibid., paragraff 40.

⁸⁹ Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008, Memorandwm Esboniadol, MPM-02-EM-S1, Nodiadau Esboniadol paragraffau 7.9 a 7.8.

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

106. Cafodd amrywiaeth o safbwyntiau eu mynegi gan y rhai a roddodd dystiolaeth ynghylch darpariaethau sy'n ymwneud ag adroddiadau ac arolygiadau.

107. Roedd y rhai a oedd o blaid cynnwys trefniadau ar gyfer adroddiadau ac arolygiadau yn y Mesur arfaethedig yn teimlo y byddai hynny'n sicrhau bod digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i agenda bwyta'n iach a bod y ffocws yn cael ei gynnal er gwaethaf blaenoriaethau cyferbyniol.

108. Rhoddodd Gwasanaethau Addysg Conwy groeso penodol i'r gofynion ynglŷn ag adroddiadau ac arolygiadau, gan awgrymu y bydden nhw'n codi:

'... the status of healthy lifestyles and would ensure head teachers take an active interest in the provision of food...'⁹⁰

109. Yn ychwanegol, roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod y darpariaethau hyn yn ffordd effeithiol o godi safonau.⁹¹

110. Er ei fod yn gryf o blaid y darpariaethau, ac er ei bod yn rhesymol i'r awdurdodau perthnasol fonitro sut y byddai'r ysgolion yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol i hybu bwyta'n iach, awgrymodd yr Athro Moore y gallai fod yn fwy priodol mesur effaith y Mesur arfaethedig ar ymddygiad deietegol disgyblion drwy ddefnyddio dull annibynnol, e.e. Arolygon lechyd leuenctid Cymru.⁹²

111. Yn wir, roedd y dull ar gyfer mesur llwyddiant yn peri pryder i'r mwyafrif o'r rhai a gyflwynodd sylwadau ar y gofynion ynghylch adroddiadau ac arolygiadau, gan gynnwys y rhai a oedd o blaid y rheiny o ran egwyddor. Credid bod yr angen i'r arolygiadau gael eu cynnal gan arbenigwyr a chanddyn nhw gymwysterau addas, a'r goblygiadau ariannol, yn arbennig o bwysig.

112. Yn gyffredinol, doedd y rhai a oedd yn cynrychioli proffesiwn yr athrawon ddim o blaid y gofynion ynglŷn ag adroddiadau ac arolygiadau, ac roedd NAHT Cymru a Chymdeithas yr Arweinwyr Ysgolion a Cholegau yn benodol yn eu gwrthwynebu.⁹³

113. Roedd NAHT Cymru ac UCAC yn gofidio y byddai'r gofynion hyn yn arwain at gynnydd yn llwyth gwaith penaethiaid a'u gwneud yn atebol am rywbeth nad oedd ganddyn nhw reolaeth uniongyrchol drosto.⁹⁴ Yn benodol,

⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES16.

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES32.

⁹² Cofnod y Trafodion, paragraff 45, 24 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES8 ac HES36.

⁹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraffau 78 ac 82, 17 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

teimlai NAHT Cymru y byddai'n annheg barnu ysgolion yn ôl a oedd yna gynnydd yn y niferoedd a fyddai'n cymryd prydau ysgol, gan fod cynifer o ffactorau a oedd yn effeithio ar ddewisiadau disgyblion y tu allan i reolaeth yr ysgolion.

114. Er bod CLILC ac ADEW yn cydnabod y gall strwythur clir ar gyfer adroddiadau fod yn fuddiol, pwysleisiodd y ddau fod angen creu partneriaethau llwyddiannus a sicrhau bod yr ysgol gyfan yn cael ei hennill drosodd yn hytrach na mecanweithiau caeth ar gyfer adroddiadau.⁹⁵

115. Roedd llawer o ddryswch ymhlith y rhai a roddodd dystiolaeth ynghylch rôl Estyn mewn perthynas ag arolygiadau, yn enwedig a fyddai disgwyl i Estyn wirio sut roedd yr ysgolion yn cydymffurfio â'r safonau maeth tynnach (y darperir ar eu cyfer yn Adran 7) a chyflwyno adroddiad wedyn. Er y byddai Adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i Estyn arolygu a chyflwyno adroddiadau ar gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol i hybu bwyta'n iach (a osodir gan Adran 1(1)), fyddai dim disgwyl iddyn nhw edrych ar y cydymffurfio â safonau maeth fel rhan o'u rôl. Gellid dadlau bod rhai o'r gwrthwynebiadau uchod yn erbyn y gofynion ynghylch adroddiadau ac arolygiadau wedi'u seilio'n rhannol ar gamddealltwriaeth o'r darpariaethau penodol hyn.

116. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, esboniodd Estyn ei bod yn ofynnol i arolygwyr, ers mis Ebrill 2007, gyflwyno sylwadau ynghylch a oes gan ysgol drefniadau sy'n annog ac yn galluogi dysgwyr i fod yn iach. Aeth Estyn ymlaen i awgrymu na fyddai gofynion arolygu ychwanegol yn cyd-fynd â'r polisi cyffredinol o resymoli arolygiadau ar y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Credai Estyn y byddai gwaith arolygu thematig i gloriannu cynnydd ysgolion wrth hybu bwyta'n iach yn drefniant arolygu mwy priodol na'r trefniant a ddarperir yn Adran 5. Gallai arolygon thematig gael eu cynnal drwy ddefnyddio'r pwerau presennol a geir yn Adran 20 o *Ddeddf Addysg 2005*. Roedd Estyn yn credu y dylai'r dull thematig hwn roi sylw i unrhyw broblemau a allai gael eu creu fel arall yn y broses arolygi o ganlyniad i roi'r darpariaethau ar waith yn raddol.⁹⁶

Tystiolaeth yr Aelod sy'n gyfrifol

117. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, haerodd Jenny Randerson AC mai'r ddarpariaeth ar adroddiadau ac arolygiadau oedd un o'r agweddau pwysicaf ar y Mesur arfaethedig a'i bod yn allweddol i'w lwyddiant. Roedd yn credu mai dyna'r ffordd fwyaf effeithiol i sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i fwyta'n iach pan fyddai ysgolion yn wynebu galwadau cyferbyniol ac i sicrhau ymagwedd gyson ar draws yr holl ysgolion.⁹⁷

⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES2.

⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES19.

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 59, 1 Gorffennaf 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

118. Wrth ymateb i'r pryder y byddai'r ysgoion yn cael eu beirniadu'n annheg ynghylch a fyddai cynnydd mewn bwyta'n iach wedi bod, awgrymodd Jenny Randerson AC fod Estyn wedi datblygu mecanweithiau adrodd soffistigedig a theg, a oedd eisoes yn cymryd i ystyriaeth nifer o ffactorau allanol a allai effeithio ar berfformiad ysgol.⁹⁸

119. Roedd yn credu nad oedd y trefniadau ar gyfer adroddiadau ac arolygiadau y darperir ar eu cyfer yn y Mesur arfaethedig yn feichus a'u bod wedi'u cynllunio i gydweddu â'r trefniadau presennol.⁹⁹

120. Eglurodd Jenny Randerson AC y byddai'r awdurdodau lleol (neu gyrff llywodraethu mewn achosion lle'r oedd cyllidebau wedi'u dirprwyo) yn gyfrifol am roi'r safonau maeth y darperir ar eu cyfer yn Adran 7 ar waith ac am fonitro wedyn i sicrhau y cydymffurfid â nhw. Er hynny, cydnabu fod yna orgyffwrdd â'r swyddogaeth ychwanegol i'r Prif Arolygydd Ysgolion y darperir ar ei chyfer yn Adran 5, mewn perthynas â'r ddyletswydd i hybu bwyta'n iach ac fe fyddai'n ystyried y mater hwn ymhellach yng ngoleuni adroddiad y Pwyllgor ac unrhyw argymhellion dilynol.¹⁰⁰

Ein barn ni

121. Rydyn ni'n cydnabod mor bwysig yw monitro a chloriannu'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth symud agenda bwyta'n iach yn ei flaen ac yn derbyn haerid Jenny Randerson AC ac eraill y bydd hynny'n helpu i sicrhau bod digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r mater hwn yn barhaus. Rydyn ni'n cydnabod y pryderon a godwyd yn y dystiolaeth am y baich gweinyddol a biwrocratig posibl y gallai'r trefniadau hyn eu gosod ar yr awdurdodau. Er hynny, rydyn ni'n credu y bydd y trefniadau y darperir ar eu cyfer yn y Mesur arfaethedig, yn ymarferol, yn estyniad ar y trefniadau presennol i raddau helaeth ac yn newid ffocws ynddyn nhw, a dim byd arall. Ar y sail honno, o ran egwyddor rydyn ni'n cefnogi'r trefniadau ar gyfer adroddiadau ac arolygiadau y darperir ar eu cyfer yn Adrannau 4, 5 a 6.

122. Er gwaethaf yr uchod, rydyn ni'n rhannu'r pryderon a godwyd yn y dystiolaeth am sut y caiff effaith y ddyletswydd i hybu bwyta'n iach (Adran 1(1)) ei mesur. Yn benodol, rydyn ni'n amau a yw'n briodol i gyrff llywodraethu ac Estyn gyflwyno adroddiadau ar i ba raddau y mae'n ymddangos bod y ddyletswydd wedi arwain at gynnydd mewn bwyta'n iach. I'r perwyl hwn, er ein bod yn derbyn bod angen mesur llwyddiant a/neu ddeilliannau'r ddyletswydd yn Adran 1(1), rydyn ni'n argymhell y dylid meddwl rhagor am y ffordd orau i ddarparu ar gyfer hyn yn y Mesur arfaethedig.

123. Rydyn ni'n nodi'r ymagwedd thematig at arolygu bwyta'n iach a gynigiwyd gan Estyn. Er ein bod yn ategu'r ymagwedd hon, rydyn ni'n credu

⁹⁸ Ibid., paragraff 61.

⁹⁹ Ibid., paragraff 59.

¹⁰⁰ Ibid., paragraff 67.

mai'r peth gorau fyddai defnyddio gwaith arolygu thematig i gydategu'r gofyniad y darperir ar ei gyfer yn Adran 5, yn hytrach na'i ddisodli.

124. Ymhellach, oherwydd y dryswch ymddangosiadol ynghylch rôl Estyn wrth arolygu safonau maeth mwy caeth y darperir ar ei chyfer yn Adran 7, rydyn ni'n argymhell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ystyried sut y gellid sicrhau mwy o eglurder.

Adran 7 - Gofynion ynglŷn â bwyd a diod a ddarperir ar fangre ysgol etc.

Y cefndir

125. Mae Adran 7 wedi'i seilio ar yr adran 114A gyfredol yn Neddff Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ragnodi safonau maeth prydau ysgol.

126. Mae Adran 7(2) yn mynd y tu hwnt i'r pwerau presennol drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu lefelau uchaf o fraster, halen, siwgr ac ychwanegion artiffisial, wrth iddyn nhw wneud rheoliadau sy'n rhagnodi ar gyfer bwyd a diod.

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

127. Lefelau amrywiol o gefnogaeth a gafwyd i'r safonau maeth mwy caeth y darperir ar eu cyfer yn Adran 7. Rhoddodd rhai o'r rhai a roddodd dystiolaeth groeso penodol i'r ddarpariaeth tra oedd eraill yn credu nad oedd angen ymagwedd statudol, gan fod gwelliannau mewn safonau maeth yn cael sylw drwy gyfrwng *Blas am Oes*.

128. Wrth ategu'r ddarpariaeth yn Adran 7, awgrymodd Comisiynydd Plant Cymru y dylai'r safonau maeth uwch roi'r sail ar gyfer newidiadau eraill y darperir ar eu cyfer yn y Mesur arfaethedig.¹⁰¹ Yn yr un modd, credai Gweithgor Blas am Oes Casnewydd fod safonau o'r fath yn angenrheidiol ac y bydden nhw'n helpu i wella prydau ysgol.¹⁰²

129. Arddelai Cynghair Bwyd Cymru safbwynt ehangach gan awgrymu y byddai'r darpariaethau yn Adran 7 yn arwain at fanteision ehangach. Pwysleisiodd y Cynghair bŵer prynu posibl awdurdodau lleol (ac adrannau o'r llywodraeth) a ddylai:

'...drive the specification of manufactured foods available to the public sector and the wider population. This provides a double dividend for public health.'¹⁰³

¹⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES15.

¹⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig, HES17.

¹⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES33.

130. Er eu bod yn cydnabod y safonau maeth sy'n cael eu peilotio drwy gyfrwng *Blas am Oes*, roedd Estyn yn credu bod angen rhagor o waith amserol gan ysgolion, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod holl ysgolion Cymru yn bodloni'r safonau hynny.¹⁰⁴ I'r perwyl hwn, pan holwyd Estyn, awgrymwyd y dylai Adran 7(1) gael ei chryfhau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â safonau maeth o'i gyferbynnu â'u galluogi yn unig i wneud hynny.¹⁰⁵

131. Er gwaethaf eu cefnogaeth i safonau maeth uwch, pwysleisiodd nifer o sefydliadau fod angen cofio'r profiad diweddar yn Lloegr, lle'r oedd cyflwyno safonau maeth mwy caeth wedi arwain at ostyngiad yn y niferoedd a oedd yn cymryd prydau ysgol, a dysgu o'r profiad hwnnw. Serch hynny, roedd yr Athro Moore yn credu bod y profiad hwn yn deillio o gyflwyno'r newidiadau yn Lloegr yn gyflym, ac esboniodd mai peth cymhleth ac anodd oedd newid ymddygiad. Aeth yn ei flaen i bwysleisio:

'.....there needs to be careful consideration of how rapidly changes are brought about in food provided in school lunches and you need to support that and encourage children...'¹⁰⁶

132. Yn yr un modd, awgrymodd SNACMA:

'The likelihood of radical changes to the foods being offered in schools ... being embraced quickly, if at all, by children is remote as evidenced by the problems experienced in England. It is important in this context to understand the changes in behaviours and habits are achieved only slowly and when the change is easy to accept and adopt.'¹⁰⁷

133. Serch hynny, derbynnid yn gyffredinol gan y rhai a roddodd dystiolaeth mai ymagwedd gynyddrannol, yn unol ag amlinelliad Jenny Randerson AC yn y Memorandwm Esboniadol ac yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, oedd yr un fwyaf priodol¹⁰⁸ ac y byddai'n helpu i ddiogelu yn erbyn unrhyw effaith negyddol yng Nghymru.

134. Teimlai nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth fod y ddarpariaeth yn Adran 7 yn ddiangen o gofio bod safonau newydd wedi'u peilotio drwy gyfrwng *Blas am Oes*. Yn ychwanegol at hynny, codwyd pryder y byddai newidiadau aruthrol mewn safonau maeth yn tanseilio'r gwaith a oedd yn cael ei wneud drwy gyfrwng *Blas am Oes* gan arwain at effaith negyddol, e.e. gostyngiad yn y niferoedd a oedd yn bwyta prydau ysgol wrth i ddisgyblion chwilio am ddewisiadau eraill 'afiach' oddi ar y safle, neu ddewis dod â phecyn cinio a fyddai'n is ei ansawdd o ran maeth.¹⁰⁹

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES19.

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, paragraffau 135 i 140, 24 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

¹⁰⁶ Ibid., paragraff 47.

¹⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES32.

¹⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES13.

¹⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES3.

135. Roedd y diffyg gwybodaeth gyfredol am oblygiadau ymarferol ac ariannol cyflwyno safonau maeth mwy caeth yn peri pryder i nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth. Yn wir, aeth rhai yn eu blaen i awgrymu y byddai canlyniad prosiect ymchwil *Blas am Oes* yn helpu i asesu a oedd y safonau maeth yn ymarferol ac yn bwydo penderfyniadau pellach. Yn gysylltiedig â hyn, roedd cost uniongyrchol cyflwyno safonau maeth uwch yn broblem i rai o'r rhai a gyflwynodd sylwadau ar y ddarpariaeth yn Adran 7. Codwyd pryder penodol gan y Gymdeithas Arlwywyr Awdurdod Lleol (LACA), a awgrymodd fod yr amcangyfrif o'r gost yn y Memorandwm Esboniadol yn llai na'r swm:

'...that we believe is actually required to provide healthier school meals in Wales.'¹¹⁰

136. Pwysleisiodd LACA y cynnydd diweddar yng nghost bwyd gan danlinellu bod angen buddsoddiad sylweddol yn y seilwaith, e.e. gwell cyfleusterau, offer a chynnydd yn y costau staffio, er mwyn cyrraedd y safonau uwch.¹¹¹ Mynegwyd barn debyg gan sefydliadau eraill, yn y sector llywodraeth leol yn bennaf. Yn wir, aeth sawl un ymlaen i danlinellu bod angen arian ychwanegol, yn enwedig felly i osgoi cynyddu cost prydau ysgol.

137. Codwyd pryder difrifol yn y dystiolaeth am sut y byddai cydymffurfio â'r gofyniad yn Adran 7(2) yn cael ei fonitro a'i arolygu (fel y crybwyllwyd ym mharagraff 115 uchod). Gellid dadlau bod rhai o'r amheuron ynghylch cyflwyno safonau maeth uwch yn gysylltiedig yn benodol â hyn. Mewn rhai achosion roedd yn anodd gwybod a oedd y rhai a roddodd dystiolaeth yn gwrthwynebu darpariaeth Adran 7 o ran egwyddor, ynteu a oedd eu pryder yn ymwneud yn bennaf â'r trefniadau ar gyfer monitro ac arolygu'r cydymffurfio â'r safonau. Er hynny, awgrymodd rhai tystion fod angen egluro pwy fyddai'n gyfrifol ac yn atebol am roi'r safonau maeth ar waith.

138. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, esboniodd y Gweinidog fod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bwerau ar hyn o bryd ynglŷn â safonau maeth, ond ei bod hithau, ar hyn o bryd, wedi dewis peidio â'u defnyddio. Yn hytrach, roedd safonau maeth yn cael eu peilotio drwy gyfrwng *Blas am Oes*, er mwyn cael gweld a fyddai'n bosibl eu cyflawni yn ymarferol.¹¹²

Tystiolaeth yr Aelod sy'n gyfrifol

139. Esboniodd Jenny Randerson AC fod cysylltiad rhwng y gofynion yn Adran 7(2) a'r manylebau ynglŷn â safonau maeth yn *Blas am Oes* a'u bod yn cynnig dilyniant rhesymegol o'r fenter honno.¹¹³ Roedd yn credu'n gryf y byddai mynd ati'n raddol i gyflwyno safonau maeth mwy caeth, ar y cyd â'r

¹¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES22.

¹¹¹ Ibid.

¹¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 10, 3 Mehefin 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

¹¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 20 Mai 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

gwaith hybu ac addysgu y darperid ar ei gyfer gan y Mesur arfaethedig, yn diogelu yn erbyn gostyngiad yn y niferoedd a oedd yn bwyta prydau ysgol.¹¹⁴

140. Wrth gyflwyno sylwadau ar amseru'r safonau maeth, esboniodd Jenny Randerson AC nad oedd yna ddyddiadau cychwyn yn y Mesur arfaethedig, a fyddai'n caniatáu i'r Gweinidog ddisgwyl am ganlyniad prosiect ymchwil *Blas am Oes* cyn cyflwyno rheoliadau o dan Adran 7.¹¹⁵

Ein barn ni

141. Rydyn ni'n cydnabod pwerau presennol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â safonau maeth prydau ysgol ac yn nodi nad yw'r rhain yn cael eu harfer ar hyn o bryd. Er hynny, rydyn ni'n cydnabod bod y Mesur arfaethedig yn ceisio cydgrynhoi a chryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol ar fwyta'n iach mewn ysgolion ac, i'r perwyl hwnnw rydyn ni'n fodlon ynglŷn â chynnwys y ddarpariaeth yn Adran 7.

142. Er ein bod yn croesawu ymarfer peilot ar gyfer safonau maeth uwch drwy gyfrwng *Blas am Oes*, rydyn ni'n cytuno â'r tystion fod angen rhagor o waith i wella safonau maeth bwyd yn yr ysgolion. Rydyn ni'n cydnabod bod y gofynion yn Adran 7(2) wedi'u seilio ar y manylebau sy'n cael eu rhoi ar waith drwy gyfrwng *Blas am Oes*, ac yn cynnig dilyniant rhesymegol i'r manylebau hynny. Rydyn ni'n credu y bydd cynnwys y gofynion hyn yn helpu i sicrhau darpariaeth gyson a chyfartal o ran bwyd mewn ysgolion ledled Cymru. Ar y sail honno, ac oherwydd cryfder y dystiolaeth, **rydyn ni'n argymhell y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei gryfhau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan Adran 7 o'i gyferbynnu â'u galluogi i wneud hynny.** Er ein bod yn derbyn mai mater i Weinidogion Cymru benderfynu arno yn y pen draw fydd arfer y pwerau hyn (fel y mae wedi'i nodi yn y darpariaethau cychwyn yn Adran 16), rydyn ni'n credu y bydd cryfhau'r ddarpariaeth yn creu disgwyliad iddyn nhw wneud hynny.

Adran 8 - Dŵr yfed mewn ysgolion

Y cefndir

143. Mae *Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999* yn dweud bod rhaid i ysgol gael cyflenwad o ddŵr iach at ddibenion domestig gan gynnwys cyflenwad dŵr yfed.

144. Mae Adran 8 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol i sicrhau bod cyflenwad dŵr ar gael yn rhad ac am ddim, ac i roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir yn hyn o beth gan Weinidogion Cymru.

¹¹⁴ Ibid., paragraffau 88 a 90.

¹¹⁵ Ibid., paragraff 9 a Chofnod y Trafodion, paragraff 11, 1 Gorffennaf 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

145. Cafwyd cefnogaeth eang i'r ddyletswydd y darperir ar ei chyfer yn Adran 8. Roedd Cynghrair Bwyd Cymru'n credu bod darparu dŵr yfed am ddim yn hawl ddynol sylfaenol,¹¹⁶ tra oedd eraill yn cydnabod mor bwysig yw hydradu, a oedd yn ffactor allweddol yn nysgu plant.¹¹⁷ Tanlinellodd rhai fod angen i ddŵr yfed fod ar gael yn hwylus ac yn ddigonol,¹¹⁸ gan ddweud mai'r peth gorau fyddai iddo fod ar gael o'r prif gyflenwadau dŵr wedi'i hidlo.¹¹⁹

146. Er gwaethaf yr uchod, roedd llawer o'r rhai a roddodd dystiolaeth yn gofidio am gostau gweithredu a chynnal-a-chadw, yn enwedig wrth ddefnyddio oeryddion dŵr. Tanlinellodd Undeb Amaethwyr Cymru fod angen sicrhau na fyddai'r ddyletswydd yn gosod cyfyngiadau ar y cyllidebau addysg presennol,¹²⁰ tra awgrymodd rhai o'r awdurdodau lleol yn benodol y dylai unrhyw gostau perthnasol gael eu hadlewyrchu yn y Grant Cynnal Refeniw.

147. Awgrymodd y dystiolaeth fod disgyblion yn anfodlon yfed yn ystod y diwrnod ysgol er mwyn osgoi defnyddio cyfleusterau tai bach gwael a hefyd:

'Aspects of toilets are unsatisfactory in half of secondary schools and in a quarter of primary schools surveyed for Estyn's report...'¹²¹

148. Oherwydd hyn, roedd Estyn, ynghyd â Chomisiynydd Plant Cymru, ac ATL Cymru yn credu y gallai cyfleusterau tai bach annigonol effeithio ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn Adran 8, gan alw am gyflwyno safonau gofynnol ar gyfer tai bach yn yr ysgolion.¹²² Yn gysylltiedig â hyn, awgrymodd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru y dylai'r Mesur arfaethedig gynnwys:

'...a duty on LEAs to ensure adequate hand washing facilities are available and to promote good hygiene practice, such as hand washing by children before school mealtimes...'¹²³

149. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, awgrymodd y Gweinidog nad oedd angen y ddarpariaeth yn Adran 8 gan fod cryn waith wedi'i wneud eisoes yn y maes hwn. Esboniodd fod y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF) ar gyfer Plant yn ei gwneud yn ofynnol i bob man lle mae plant yn bwyta drefnu bod dŵr ar gael am ddim. Yn ychwanegol, roedd hyn yn cael ei atgyfnerthu yn *Blas am Oes*, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth dŵr angenrheidiol gael ei wahanu oddi wrth dai bach yr ysgolion.¹²⁴

¹¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES33.

¹¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES15.

¹¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES1.

¹¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES28.

¹²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES37.

¹²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES19.

¹²² Tystiolaeth ysgrifenedig, HES19.

¹²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES34.

¹²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES42.

Tystiolaeth yr Aelod sy'n Gyfrifol

150. Esboniodd Jenny Randerson AC nad oedd y ddarpariaeth yn Adran 8 wedi'i chynnwys yn ei chynnig gwreiddiol y bu'n ymgynghori yn ei gylch. Ond, ar ôl gweld cefnogaeth gref yn yr ymatebion ymgynghori i gynnwys darpariaeth o'r fath, cafodd ei hychwanegu. Aeth ymlaen i esbonio nad oedd rheoliadau 1999 yn pennu y dylai'r dŵr fod am ddim a bod Adran 8(2) o'r Mesur arfaethedig yn darparu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau manylach ar y pwnc hwn.¹²⁵

Ein barn ni

151. Rydyn ni'n nodi'r gefnogaeth gref yn y dystiolaeth i'r ddarpariaeth yn Adran 8 ac yn fodlon i'r ddyletswydd, sy'n adeiladu ar y ddeddfwriaeth bresennol, gael ei chynnwys yn y Mesur arfaethedig. Rydyn ni'n cydnabod y dystiolaeth a ddaeth i law ynghylch manylebau manylach ynghylch argaeledd dŵr yfed a'i ffynhonnell ac yn credu y byddai'n fwy priodol rhoi sylw i'r rhain drwy gyfrwng canllawiau a gâi eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru. I'r perwyl hwn, **rydyn ni'n argymhell y dylai canllawiau o dan Adran 8(2) ei gwneud yn ofynnol i'r cyflenwad o ddŵr yfed fod ar gael yn hwylus, bod ar wahân yn ffisegol i'r tai bach ac, os oes modd, cael ei godi o'r prif gyflenwad.**

152. Rydyn ni'n derbyn bod cwestiwn cyfleusterau tai bach y tu allan i gwmpas y Mesur arfaethedig. Er hynny, o gofio cryfder y dystiolaeth y gallai methu â mynd i'r afael â chyfleusterau tai bach gwael danseilio effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn Adran 8, hoffem annog Llywodraeth y Cynulliad i ystyried y ffordd orau i roi sylw i'r mater hwn.

Adrannau 9 a 10 - Hybu prydau mewn ysgolion a diogelu manylion adnabod disgyblion sy'n cael cinio ysgol am ddim

Y cefndir

153. Byddai Adran 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau addysg lleol hybu argaeledd prydau ysgol yn gyffredinol, a chinio ysgol di-dâl yn benodol, ac annog disgyblion i'w bwyta. Does dim darpariaeth yn Adran 9 i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch hybu prydau mewn ysgolion.

154. Mae adran 10 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau addysg lleol i ddiogelu manylion adnabod disgyblion sydd â hawl i gael cinio ysgol am ddim, a hynny mewn ymgais i hybu'r niferoedd sy'n bwyta prydau ysgol iach. Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 10, mae'n rhaid i'r awdurdodau addysg lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

¹²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 99, 20 Mai 2008, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

Tystiolaeth y rhanddeiliaid

155. Yn gyffredinol, roedd y rhai a gyflwynodd sylwadau ar y ddarpariaeth ynghylch hybu prydau yn gefnogol iddi. Yn benodol, awgrymodd yr Athro Moore fod yr ymchwil yn dangos bod cynnwys maethiadol prydau ysgol yn well na chynnwys maethiadol cinio pecyn a bwyd sy'n cael ei brynu oddi ar fangre'r ysgol, e.e. mewn faniau symudol.¹²⁶

156. Cafodd pwysigrwydd yr amgylchedd ar gyfer bwyta a rheolaeth amserau prydau bwyd wrth hybu cinio ysgol a bwyta'n iach yn gyffredinol ei godi gan lawer o'r rhai a roddodd dystiolaeth. Dywedodd Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched:

'It should be noted that take up on school meals is often low because of queuing and dining facilities.'¹²⁷

a hefyd

'It is important that pupils can access and consume their food in a conducive atmosphere...we believe that it is vital that these are effectively addressed if this Measure is to make a difference.'¹²⁸

157. Yn eu hadroddiad 'Bwyd a ffitrwydd', daeth Estyn i'r casgliad bod ansawdd y profiad a geid wrth fwyta yn ffactor dylanwadol wrth benderfynu a fyddai disgyblion yn dewis bwyta prydau ysgol neu beidio. Argymhellodd Estyn wedyn y dylai ysgolion adolygu eu trefniadau amser cinio er wyn sicrhau bod y rheiny'n ategu byw yn iach.¹²⁹ Yn wir, roedd llawer yn credu bod hyd amserau prydau yn rhwystr arwyddocaol a oedd yn atal bwyta'n iach rhag cael ei wella. Awgrymwyd y gallai'r rhain gael eu goresgyn, naill ai drwy gyflwyno amser cinio rhanedig¹³⁰ neu drwy gyfyngu hyd yr amser cinio i awr.¹³¹ Esboniodd Cymdeithas Deieteg Prydain fod lleihau amser cinio wedi cael effaith aruthrol ar argaeledd a dewisiadau bwyd a sut roedd bwyd yn cael ei weini. Aeth y Gymdeithas yn ei blaen:

'Unless this is addressed and more importance paid to the social aspect of lunch times and eating the Measure is unlikely to lead to increased uptake of healthier choices.'

158. Cafodd y diffyg arian sydd ar gael i wella cyfleusterau bwyta er mwyn darparu amgylchedd addas lle y byddai'r disgyblion yn dewis bwyta ei godi hefyd yn y dystiolaeth.

¹²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES11.

¹²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES28.

¹²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES28.

¹²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES19.

¹³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES6.

¹³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES10, HES30 ac HES31.

159. Wrth gyfeirio at Adran 9(2), awgrymodd ASB Cymru y dylai gwaith gael ei wneud i ddeall y rhwystrau er mwyn gwella'r niferoedd sy'n cymryd cinio ysgol.¹³² Wrth gyflwyno sylwadau ar yr ymchwil bresennol, dywedodd Estyn a Gweithgor Blas am Oes Casnewydd fod disgyblion ysgol uwchradd a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn aml yn dewis peidio â'u cymryd os oedden nhw'n cael caniatâd i fynd oddi ar y safle, am eu bod yn awyddus i fod gyda'u ffrindiau.¹³³ Aeth y Gweithgor ymlaen i awgrymu mai'r unig ffordd i roi sylw i'r mater cymhleth hwn fyddai cael digon o gymorth gan benaethiaid a chyrrff llywodraethu, ymhlith eraill.¹³⁴

160. Cafwyd cefnogaeth eang yn y dystiolaeth i Adran 10. Yn gyffredinol, teimlid y byddai diogelu manylion adnabod y rhai a oedd yn cael prydau ysgol am ddim, yn enwedig drwy gyflwyno systemau heb arian parod¹³⁵ yn helpu i oresgyn unrhyw stigma a oedd yn atal disgyblion rhag cymryd eu hawliau. Yn gysylltiedig â hyn, awgrymodd rhai y dylid rhoi ystyriaeth yn y pen draw i gyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl. Yn wir, dywedodd Cyngor Sir Powys:

'School meals should be regarded as an integral part of the academic day for all pupils. Just as lessons are free for all, free school meals for all would ensure that every pupil is treated equally with the same chance for a healthier diet and future life.'¹³⁶

161. Cafodd pryder ei godi gan nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth am y goblygiadau ariannol ac ymarferol pe ceid cynnydd arwyddocaol yn y galw am brydau ysgol o ganlyniad i'r gofynion, a hefyd am y goblygiadau - o ran costau - yn sgil diogelu manylion adnabod disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn unol â'r ddarpariaeth yn Adran 10.

162. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, esboniodd y Gweinidog fod system electronig i'r awdurdodau lleol yn cael ei chyflwyno i fireinio'r broses ar gyfer gwirio'r hawl i gael prydau ysgol am ddim. Hefyd, roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n comisiynu adolygiad o'r llenyddiaeth ar y niferoedd sy'n cymryd prydau ysgol am ddim.¹³⁷

Tystiolaeth yr Aelod sy'n Gyfrifol

163. Roedd Jenny Randerson AC yn teimlo'n gryf fod diogelu manylion adnabod disgyblion cymwys yn allweddol er mwyn cynyddu'r nifer sy'n cymryd prydau ysgol am ddim. Haerodd hyn:

¹³² Tystiolaeth ysgrifenedig, HES34.

¹³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES19 ac HES19.

¹³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES17.

¹³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES20.

¹³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES30.

¹³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HES42.

'If you protect...identity, then they are in the same position as all other pupils, and are therefore equally encouraged to eat healthily.'¹³⁸

164. Esboniodd Jenny Randerson AC nad oedd wedi ystyried cyflwyno prydau ysgol am ddim drwy'r Mesur arfaethedig gan y byddai hyn wedi bod yn rhy uchelgeisiol yn ariannol.¹³⁹ Er hynny, nododd fod gwaith yn cael ei wneud yn yr Alban ar yr agenda hwn a chredai y gallai fod yn fwy priodol ystyried prydau ysgol am ddim pan fyddai mwy o dystiolaeth ar gael i seilio penderfyniad arni.¹⁴⁰

Ein barn ni

165. Rydyn ni'n cydnabod y gefnogaeth gyffredinol yn y dystiolaeth i hybu prydau yn yr ysgolion ac i ddiogelu manylion adnabod disgyblion sy'n cael cinio ysgol am ddim. Rydyn ni'n derbyn y dystiolaeth ynghylch cymhlethdod y ffactorau sy'n effeithio ar y niferoedd sy'n cymryd prydau ysgol. Oherwydd y cymhlethdod hwn, ar y cyd â'r angen isorweddol i ddarparu cymorth digonol i'r rhai sy'n gweithredu'r darpariaethau allweddol, **rydyn ni'n argymhell y dylai'r Mesur arfaethedig gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau mewn perthynas ag Adran 9.**

166. Yn gysylltiedig â hyn, rydyn ni'n cydnabod mor bwysig yw creu 'profiad bwyta' cadarnhaol i'r disgyblion a'r effaith gadarnhaol y mae hyn yn ei chael ar wella bwyta'n iach. Rydyn ni'n cydnabod nad yw'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth benodol i roi sylw i'r mater hwn. I'r perwyl hwn, **rydyn ni'n argymhell y dylai canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (naill ai o dan adran 1(1) neu, os darperir ar eu cyfer o dan Adran 9) annog pob ysgol i sicrhau bod ansawdd y profiad bwyta yn addas i hybu bwyta'n iach.**

167. Rydyn ni'n cydnabod ac yn derbyn y farn y byddai diogelu manylion adnabod y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim y darperir ar ei gyfer yn Adran 10 yn helpu i roi sylw i'r stigma sy'n atal disgyblion rhag cymryd eu hawliau. Rydyn ni'n cydnabod mor bwysig yw canllawiau wrth sicrhau agwedd gyson a chanlyniadau llwyddiannus. I'r perwyl hwn, **rydyn ni'n argymhell y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei gryfhau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau o dan Adran 10(6).**

¹³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 71, 1 Gorffennaf, y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion.

¹³⁹ Ibid., paragraff 73.

¹⁴⁰ Ibid.

5. Adroddiadau pwyllgorau eraill

i. Y Pwyllgor Cyllid

168. Ystyriodd y Pwyllgor Cyllid y Mesur arfaethedig yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin 2008, yn unol â Rheol Sefydlog 14.2.¹⁴¹ Cymerodd dystiolaeth ar lafar gan Jenny Randerson AC, a chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.¹⁴² Gosododd y Pwyllgor ei adroddiad gerbron y Cynulliad ar 1 Gorffennaf 2008, ac mae copi ar gael ar wefan y Cynulliad.

169. Yn ei adroddiad, daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn fodlon ar yr amcangyfrif o gost y Mesur arfaethedig, ond cydnabu y gallai amser y costau newid yn ôl pa mor gyflym y câi'r darpariaethau eu rhoi ar waith ac y câi gwelliannau eu sicrhau.

Ein barn ni

170. Rydyn ni'n nodi casgliadau'r Pwyllgor Cyllid. Er hynny, oherwydd y pryderon a godwyd yn y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor hwn, yn enwedig ynghylch y costau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â gwireddu safonau maeth uwch, rydyn ni'n awgrymu y dylai Llywodraeth y Cynulliad archwilio'n llawn oblygiadau ariannol gweithredu'r rheoliadau y darperir ar eu cyfer yn y Mesur arfaethedig cyn iddyn nhw gael eu gwneud.

ii Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

171. Yn ei gyfarfod ar 15 Ebrill 2008, ystyriodd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth y Mesur arfaethedig, yn unol â Rheol Sefydlog 15.6. Cymerodd dystiolaeth ar lafar gan Jenny Randerson AC.¹⁴³

172. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth wedyn at ein Pwyllgor ninnau i amlinellu ei gasgliadau. Mae copi o'r llythyr oddi wrth y Dr Dai Lloyd AC i'w weld ar wefan y Cynulliad.

173. Daeth y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth i'r casgliad ei fod yn fodlon ar y darpariaethau ynghylch is-ddeddfwriaeth yn y Mesur arfaethedig ac ar y weithdrefn sy'n gymwys iddyn nhw.

Ein barn ni

174. Rydyn ni'n nodi casgliadau'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth. Er ein bod yn fodlon ar hyd a lled y pwerau i wneud rheoliadau sydd i'w cael yn y Mesur arfaethedig, rydyn ni wedi argymhell y dylai Adran 7 gael ei chryfhau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â safonau maeth, o'i gyferbynnu â'u galluogi i wneud hynny.

¹⁴¹ Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2008, Y Pwyllgor Cyllid

¹⁴² Ibid.

¹⁴³ Cofnod y Trafodion, 15 Ebrill 2008, Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.



Atodiadau

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cyfeirnod

Sefydliad

HES 1	Cymdeithas Ddeieteg Prydain
HES 2	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
HES 3	Prif Weithredwr Cyngor Sir Bro Morgannwg
HES 4	Cyfarwyddwr Dysgu Cyngor Sir Bro Morgannwg
HES 5	UCAC
HES 6	Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr
HES 7	Llywodraethwyr Cymru
HES 8	Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
HES 9	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
HES 10	Cyngor Sir Caerfyrddin
HES 11	Yr Athro Lawrence Moore
HES 12	Cymdeithas Feddygol Prydain
HES 13	Sefydliad Prydeinig y Galon
HES 14	Diabetes UK Cymru
HES 15	Comisiynydd Plant Cymru
HES 16	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
HES 17	Gweithgor Blas am Oes Casnewydd
HES 18	Cydffederasiwn Cenedlaethol Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon
HES 19	Estyn
HES 20	Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr
HES 21	Cyngor Caerdydd

HES 22	Cymdeithas Arlwywyr Awdurdodau Lleol
HES 23	Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
HES 24	Coleg Brenhinol y Nyrsys
HES 25	Cyngor Sir Ynys Môn
HES 26	Plant yng Nghymru
HES 27	Rheolwr Gwasanaethau Arlwyo, Cyngor Sir Penfro
HES 28	Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched Cymru
HES 29	ContinYou Cymru
HES 30	Cyngor Sir Powys
HES 31	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
HES 32	Cymdeithas Gwneuthurwyr Byrbrydau, Cnau a Chreision
HES 33	Cynghrair Bwyd Cymru
HES 34	Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
HES 35	Which?
HES 36	Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau
HES 37	Undeb Amaethwyr Cymru
HES 38	Cyngor Sir Fynwy
HES 39	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
HES 40	Cyngor Sir Ceredigion
HES 41	Cyngor Sir Ddinbych
HES 42	Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Gellir dod o hyd i'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn:

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus-legislation-meas-hes/bus-legislation-measures-hes-consultationresponses.htm>

Rhestr o Dystiolaeth Lafar

Dyddiad	Tystion
20 Mai 2008	Jenny Randerson AC, Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig
3 Mehefin 2008	Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
10 Mehefin 2008	Cymdeithas Ddeieteg Prydain Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
17 Mehefin 2008	Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) Llywodraethwyr Cymru
24 Mehefin 2008	Athrofa y Gymdeithas, lechyd a Moeseg Caerdydd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) Grŵp Blas am Oes Casnewydd
1 Gorffennaf 2008	Jenny Randerson AC, Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

Mae trawsgrifiadau'r sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld yn:

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-hes-home/bus-committees-third-hes-agendas.htm>

Ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc

1. Cefndir

Yn ei gyfarfod ar 13 Mai, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n bwysig ceisio barn plant a phobl ifanc wrth ystyried sut y byddai'n craffu ar y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach Mewn Ysgolion (Cymru) 2008.

Gweithiodd y Swyddfa Ddeddfwriaeth yn agos gydag ymchwilwyr Seneddol y Cynulliad a'r Gwasanaeth Addysg i greu dau holiadur ar gyfer plant rhwng 7 a 11 oed a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed. Anfonwyd yr holiaduron, ynghyd â llythyr at benaethiaid, at hapsampl o 10% o ysgolion ledled Cymru.

Yn ogystal, defnyddiodd y Gwasanaeth Addysg yr holiadur fel rhan o'i raglenni addysg mewnol ac allanol. Trafododd ysgolion a cholegau a ymwelodd â Siambr Hywel 'fwyta'n iach', gan gynnwys rhai o'r darpariaethau penodol sydd yn y Mesur arfaethedig. Defnyddiwyd y system bleidleisio electronig i ganfod barn y disgyblion am y darpariaethau. Bu swyddogion allgymorth hefyd yn helpu i hwyluso trafodaethau dosbarth mewn nifer o ysgolion ynglŷn â'r prif faterion a amlygir yn y ddogfen ymgynghori a'r Mesur arfaethedig.

Daeth 736 o holiaduron i law.

2. Canlyniadau'r holiaduron

2.1 7 i 11 mlwydd oed

Daeth 526 o ymatebion i law.

Cwestiwn 1: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r ysgolion annog plant i fwyta'n iach pan fyddant yn yr ysgol.

Cytuno	85%
Anghytuno	13%
Ddim yn sicr	2%

Cwestiwn 2: Dylai ysgolion ofyn i'r cynghorau ysgolion am syniadau ar sut i annog plant ysgol i fwyta'n iach pan fyddant yn yr ysgol, a gwrando ar y syniadau hynny.

Cytuno	85%
Anghytuno	14%
Ddim yn sicr	1%

Cwestiwn 3: *Os yw'n dymuno, gall Llywodraeth Cynulliad Cymru benderfynu mai dim ond bwyd a diod iach ddylai gael eu darparu mewn ysgolion. Gallai hyn olygu na fyddai ysgolion yn cael darparu rhai mathau o fwyd a diod, fel melysion, creision a diodydd byrlymog, fel rhan o ginio'r ysgol nac yn siop yr ysgol.*

Cytuno 37%

Anghytuno 62%

Ddim yn sicr 1%

Cwestiwn 4: *Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ofyn barn y cyngorau ysgolion cyn penderfynu pa fwyd a diod ddylai gael eu caniatáu mewn ysgolion, a gwrando ar y farn honno.*

Cytuno 86%

Anghytuno 11%

Ddim yn sicr 3%

Cwestiwn 5: *Rhaid i ysgolion ofalu bod cinio ysgol iach ar gael i ddisgyblion ac annog cymaint o ddisgyblion â phosibl i'w fwyta.*

Cytuno 79%

Anghytuno 17%

Ddim yn sicr 4%

Yn ail ran yr holiadur, gofynnwyd i ddisgyblion benderfynu pa ddatganiad yr oeddent yn cytuno fwyaf ag ef:

Credaf fod digon yn cael ei wneud mewn ysgolion i ofalu bod disgyblion yn bwyta'n iach.

41%

Nid wyf yn credu bod digon yn cael ei wneud mewn ysgolion i ofalu bod disgyblion yn bwyta'n iach.

42%

Ni wnaeth 17% unrhyw sylw

Credaf fod angen newid y gyfraith i geisio gofalu bod plant yn bwyta'n iach yn yr ysgol.

46%

Nid wyf yn credu bod angen newid y gyfraith i geisio gofalu bod plant yn bwyta'n iach yn yr ysgol.

43%

Ni wnaeth 11% unrhyw sylw

2.2 11 i 18 mlwydd oed

Daeth 210 o ymatebion i law.

Cwestiwn 1: *Dylai cyfraith fodoli yng Nghymru sy'n gwneud yn siŵr bod bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo ymhlith disgyblion ysgol.*

Dylai	84 %
Na ddylai	12 %
Ddim yn sicr	4%

Cwestiwn 2: *Dylai Gweinidogion Cymru, cyrff llywodraethol, penaethiaid ysgolion ac awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am hyrwyddo bwyta'n iach ymhlith plant ysgol.*

Dylent	78%
Na ddylent	19 %
Ddim yn sicr	3 %

Cwestiwn 3: *Dylai'r Arolygydd Ysgolion graffu ar ysgolion i weld beth maent yn ei wneud i hyrwyddo bwyta'n iach.*

Dylai	80%
Na ddylai	15%
Ddim yn sicr	5%

Cwestiwn 4: *Dylai Gweinidogion Cymru a chyrff llywodraethu nodi beth maent yn ei wneud bob blwyddyn i hyrwyddo bwyta'n iach mewn ysgolion.*

Dylent	78%
Na ddylent	18 %
Ddim yn sicr	4%

Cwestiwn 5: *Dylai Gweinidogion Cymru nodi safonau maeth y bwyd a'r diod a ddarperir mewn ysgolion, gan gynnwys y lefelau uchaf a ganiateir o halen, siwgr ac ychwanegion artiffisial. Gall hyn olygu na chaiff ysgolion yr hawl i ddarparu bwyd a diod penodol, fel melysion, creision a diodydd byrlymog, fel rhan o brydau ysgol, neu mewn siopau bwyd mewn ysgolion.*

Dylent	65%
Na ddylent	31 %
Ddim yn sicr	4%

Cwestiwn 6: *Dylai awdurdodau addysg lleol hyrwyddo'r ffaith bod prydau ysgol ar gael ac annog disgyblion i fwyta prydau ysgol.*

Dylent	76%
Na ddylent	23%
Ddim yn sicr	1%

Cwestiwn 7: Efallai nad yw rhai disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim am i ddisgyblion eraill wybod am hyn. Dylai awdurdodau addysg lleol geisio sicrhau bod enwau disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn aros yn fater cyfrinachol.

Dylent	74%
Na ddylent	19 %
Ddim yn sicr	7%

Cwestiwn 8: Rhaid i awdurdodau addysg lleol sicrhau bod dŵr yfed ar gael o fewn cyrraedd bob amser i ddisgyblion.

Cytuno	88%
Anghytuno	4 %
Ddim yn sicr	8%

Roedd ail hanner yr holiadur ar gyfer pobl ifanc 11 i 18 mlwydd oed yn gofyn am sylwadau wrth ateb rhai cwestiynau ymgynghori dewisol. Isod, ceir crynodeb o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg.

Cwestiwn 9: Pe bai'r Mesur yn cael ei basio, pa effaith a fyddai'n ei gael arnoch chi?

O'r sylwadau a gafwyd, dywedodd y mwyafrif na fyddai pasio'r Mesur yn cael fawr o effaith arnynt, os o gwbl, oherwydd 'Rwy'n bwyta'n iach eisoes', 'mae fy ysgol i eisoes yn ysgol iach' neu 'mae bwyta'n iach eisoes yn cael ei hyrwyddo yn fy ysgol i'. Fodd bynnag, dywedodd rhai plant y byddai'r Mesur yn cael effaith gadarnhaol oherwydd byddai'n golygu bod 'bwyd gwell' ar gael ac y byddai plant 'yn fwy iach a ffit' ac 'yn gallu canolbwyntio'n well yn y dosbarth'. Dywedodd nifer fechan o blant y byddai'n eu 'gwneud yn drist'; awgrymodd un, 'Rwy'n hoffi sglodion, ond buaswn yn barod i flasw bwyd iach'. Roedd nifer o blant yn cysylltu bwyta bwyd iach gyda pheidio 'mynd yn dew'.

Cwestiwn 10: *Ydych chi'n credu bod unrhyw beth arall yn ymwneud â bwyta'n iach mewn ysgolion a ddylai gael ei gynnwys yn y Mesur hwn?*

O'r rheini a ymatebodd, roedd canran uchel yn poeni am gost bwyd iach mewn ysgolion. Awgrymodd nifer o sylwadau y 'dylai bwyd iach fod am ddim ac y dylid talu am fwyd afiach/seimllyd yn unig'. Awgrymodd nifer fawr o ddisgyblion y dylai fod mwy o weithgareddau chwaraeon am ddim ar gael, gyda nifer fechan yn awgrymu y dylid cyflwyno 'gwersi bwyta'n iach' mewn ysgolion. Awgrymodd nifer y dylai 'hyrwyddo bwyd iach yn y cartref' fod yn flaenoriaeth uchel gyda 'rhestr o fwydydd iach ar gyfer pecynnau cinio' ar gael i rieni. Awgrymodd nifer fawr y byddai 'cael gwared ar beiriannau gwerthu' mewn ysgolion yn helpu. Awgrymodd nifer fawr hefyd y dylai bod mwy o amrywiaeth o ffrwythau a llysiau ar gael gyda nifer fechan yn awgrymu y dylid 'darparu ffrwythau am ddim yn ystod amseroedd egwyl'. Roedd barn leiafrifol na ddylid cynnwys dim arall a'i bod yn bwysig 'rhoi dewis i blant'.

Cwestiwn 11: *Pe bai'r Mesur yn cael ei basio a ydych chi'n meddwl y bydd yn gwneud i ddisgyblion fwyta bwyd iachach mewn ysgolion?*

O'r rheini a wnaeth sylw, dywedodd nifer fawr y byddai'r Mesur yn gwneud i ddisgyblion fwyta bwyd iachach yn yr ysgol. Dywedodd mwyafrif y rheini nad oeddent yn credu y byddai'n gwneud gwahaniaeth y byddent yn mynd â'u pecynnau bwyd eu hunain i'r ysgol. Awgrymodd eraill fod angen anogaeth ar rieni hefyd a bod angen cydbwysedd.